CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071

Rhifyn 385 digidol
Gorffennaf 2020

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Anrhydeddu Arlunydd lleol

Tudalen 15

Cadwyn Cyfrinachau arall

Tudalen 20

Cadeirydd newydd Sir Gâr

Tudalen 23

Addasu er mwyn gwasanaethu'n lleol

Gyda Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi mesurau i lacio cyfyngiadau'r Coronafeirws gam wrth gam, rydym yn dechrau cyfarwyddo â'r normalrwydd newydd, ond sut lwyddoch chi i addasu i'r cyfyngiadau a oedd arnon ni ers mis Mawrth?

Yn y rhifyn hwn, cawn ddarllen beth oedd profiadau pobl yr ardal a sut yr effeithiodd y cyfyngiadau ar eu bywydau personol a'u gwaith o ddydd i ddydd.

Diolch i'r canlynol am rannu'u profiadau gyda ni:

- Teulu Gwarffynnon, Silian;
- Dafydd Lewis a busnes W. D. Lewis a'i fab, Llanbed;
- Hannah James a theulu Popty Mark Lane, Llanbed;
- Elin Jones a theulu Cae'r Nant, Cwmann;
- Ann Bowen Morgan, Llanbed wrth ymgyfarwyddo â Zoom;
- Sara Thomas a theulu T. L. Thomas a'i fab, Llanllwni.

Trowch i dudalennau 12, 13 a 14.

Covid-19.

Degawd newydd sy'n egino
Gobeithion lu yn blaguro.
Ond yna daeth Covid a'i holl ofid
A rhoi stop ar ein rhyddid.

Ar ddechrau degawd newydd sbon,
Doedd neb yn disgwyl storm fel hon.
Does dim i'w wneud ond cadw draw
Ac fe ddaw enfys wedi'r glaw.

Tawelodd fwrlwm yr holl fyd;
Pob siop ar gau ar hyd bob stryd.
Dysgu a gweithio o adref nawr,
Gobeithio, cyn hir, fe ddaw y wawr.

Nos Iau sydd yma unwaith 'to,
Atseinia'r clapio ar hyd y fro.
Diolch i'r gweithwyr allweddol i gyd,
A'r NHS, chi werth y byd.

Ond wedi misoedd rhyfedd, tawel
Gwelwn obaith ar y gorwel;
Llygedyn o normalrwydd nawr
I'r plant a'r siopau, bach a mawr.

Er bod y storm hon yn un blin,
Gweithiwn 'da'n gilydd, pawb fel un
Ac wedi'r dyddiau tywyll hyn,
Fe ddaw eto haul ar fryn.

Alpha Evans

Tipyn o sioe

Elfyn Williams o Bumsaint wedi casglu torth o fara ar y Burrell 6" scale model a enwir yn Cothi Maid gyda Betty a Bevan Wiliams o'r pentre yn chwifio dwylo arno. Llun: Ffotograffiaeth Gary Jones.

Gorsaf Brawf MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair, Llambed, SA48 8JX

* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
* Teiars am brisiau cystadleuol
*Ceir newydd ac ail law ar werth
* Batris * Brêcs * Egsost
*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur

approved garages.co.uk

GAREJ RHANBARTHOL Y FLWYDDYN 2019 CYMRU

AUTO CARE

Peiriant Poeth i Olchi Ceir
ar agor 24/7

01570 422305 neu 07773338048
www.brondeifigarage.co.uk
brondeifi-garage@btconnect.com

CYFRi

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 College Street, Lampeter, Ceredigion. SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS
Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn ailfeddiannu am eich cartref.

LHP

CYFRIFWYR
ARCHWILWYR
YMGYNGHORWYR

CYFRIFWYR SIARTREDIG ICAEW

81 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AB

Uchafbwyntiau'r mis ar

clonc360.cymru

LLAMBED A LLANYBYDDER YN RHAN O GÂN 'HIRAETH FYDD' AM FWS Y 701

Ar ddydd Gwener Mehefin 5ed fe wnaeth Bwca ryddhau eu ail sengl o'r flwyddyn sef "Hiraeth Fydd (701)" sydd yn adrodd hanes teithiau Steff Ress trwy ardal Clonc dan olau'r lleuad dlos.

CYN-DDIRPRWY YSGOL LLANBED YN CYHOEDDI CYFROL

Dyma gyfrol gyntaf o gerddi Geraint Roberts. O atgofion plentyn i deithiau tramor, o ddigwyddiadau allweddol i gyfarchion teuluol a chyfeillion, dyma gyfrol sy'n mynd â'r darllenydd o'i fro enedigiol, ar draws Cymru a thu hwnt.



RECORDIO HANES TÎM PÊL-DROED DYNAMO CWMANN

Bu Gary Slaymaker mewn stiwdio yn ddiweddar yn recordio fersiwn audio-book o'i nofel 'Y Sach Winwns'.

Mae'n bymtheg blynedd ers cyhoeddi'r nofel, a'r gobaith yw y bydd ar gael cyn hir fel llyfr llafar gyda'r awdur ei hunan yn ei darllen.

GWILYM BOWEN RHYS YN PERFFORMIO "LLOFRUDDIAETH HANNAH DAFIS"

Yn rhan o arlwy Eisteddfod AmGen bu cyfle i glywed recordiad newydd sbon o gân draddodiadol leol, gan Gwilym Bowen Rhys.

Baled Hannah Dafis sydd o dan sylw ganddo, sef hanes llofruddiaeth merch ifanc o Gefnheblwn Cwmann a lofruddiwyd gan ei chariad David Evans gan ddefnyddio bilwg ar Fynydd Pencarreg yn 1829.

Ffili aros tan y papur nesa'?
– clonc360.cymru

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Gorffennaf	Marian Morgan, Rhydyfelin, Drefach	481855
Medi	Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen	480526
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk	
Tîm Golygyddol	Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards a Lois Williams.	
Dylunydd y mis	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
Dosbarthwyr	Eifion ac Yvonne Davies, Afallon, Drefach	480590
Teipydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Alwen Edwards, Awel Teifi	421001
Cwmann	Sian Roberts-Jones, Croesor	423313
Cwmsychpant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Eirlys Owen, Cwmderi	481041
Llanwnnen	Elin Thomas, 1 Teras Sycamor	480239
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder	480683
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen, Llambed	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Gofynnir i bawb ddatgan eu bod wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i Bapur Bro Clonc / gwefan Clonc a gwefan Clonc360 a wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad pob plentyn dan 13 oed.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llanbed.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Diogelu enwau lleoedd

Un o'r pethe sy'n amlwg ar fy ffrwd Facebook a Twitter y dyddiau 'ma yw'r ddeiseb i atal newid enwau Cymraeg ar lefydd yng Nghymru. Byddech chi'n meddwl taw synnwyr cyffredin yw hyn, yn ogystal â rhywfaint o barch a chwrteisi. Ond na, mae'n amlwg bod angen deiseb er mwyn gwneud hi'n ddeddf gwlad, fel na all mewnfudwyr (neu bwy bynnag) newid enwau tai i'r Saesneg.

Rydyn ni gyd yn gwybod am dai sydd wedi newid dwylo: pobol di-Gymraeg yn eu prynu, yn newid yr enwau, a'u sarnu yn llwyr. Ble mae hynafiaid Daniel Rowland, y Methodist mawr o'r ddeunawfed ganrif, wedi'u claddu? Dunroamin. Wyddech chi ym mhle mae Dunroamin? Eglwys Nantcwnlle! Glywoch chi enw salwach na Dunroamin ar eglwys hanesyddol yng nghefn gwlad heddychlon calon Ceredigion!

Mae'r newyddiadurwr enwog Huw Edwards wedi dangos ei gefnogaeth droeon i'r ymgyrch i'w gwneud hi'n anghyfreithlon newid enwau tai o'r Gymraeg gwreiddiol. Ond yr hyn â'm synnodd i – a degau eraill – yw ymateb boncyrs Chris Bryant, Aelod Seneddol y Rhondda, yn awgrymu'n gryf na ddylai'r BBC ganiatáu i rywun fel Huw Edwards fynegi barn o'r fath. Barn sydd, wrth reswm, yn diogelu hanes a threftadaeth Cymru a'r iaith Gymraeg. Byddai Aelod Seneddol unrhyw wlad arall, os nad planed arall, yn gallu gweld synnwyr yn yr hyn y mae Huw Edwards yn ymgyrchu drosto, glei!

Yn yr ardal hon, rydyn ni'n eithriadol o lwcus o wybodaeth rhywun fel David Thorne, sydd wedi rhoi oriau o bleser i ddarllenwyr Clonc yn egluro hanes enwau lleoedd. Efallai ein bod ni'n ei gymryd e ac yn cymryd ei wybodaeth yn ganiataol. Efallai nad ydyn ni'n poeni'n ormodol am ein hanes, a hanes enwau lleoedd. Ond gwae ni, unwaith y caiff enwau tai eu newid, mae'n fwy na thebyg na ddôn nhw fyth yn ôl.

Fel gydag enwau caeau (sy'n destun colofn arall o Siprys efallai!), mae'n bwysig ein bod ni'n dysgu hanes lleol. Does dim rhaid i ni astudio'r peth yn academaidd nac ennill gradd yn y pwnc, ond ein bod ni'n gwybod o ble y'n ni'n dod ac yn deall yr ardal arbennig hon ry'n ni'n cael y fraint o alw'n gartref i ni.

Cloncen

ARWYN VOBE ACCOUNTANCY LTD.

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ **Cyfrifon Blynyddol ac Interim**

❖ **Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau**

❖ **Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW**

❖ **Cyflogau a CIS**

❖ **Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion**

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu
ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Ariennir yn rhannol gan **Lywodraeth Cymru**

Rhifyn Medi
yn ymddangos
3 Medi
Erthyglau, Newyddion a Lluniau i law erbyn
24 Awst

Llanbedr Pont Steffan

Pen-blwydd arbennig

Yn ystod dechrau mis Mehefin fe ddathlodd Eric Lewis, 10 Bryn yr Eglwys ei ben blwydd yn 90oed. Anodd credu ei fod yn 90oed ac yntau mor ystwyth ei droed. Gobeithio i chi fwynhau'r diwrnod.

Mae Brenda Williams, Gerlan, Greenfield Terrace, Llanbed wedi dathlu ei phen-blwydd yn 80 ar 30/06/2020. Llongyfarchiadau oddi wrth ei theulu a'i ffrindiau.

Aelod newydd i'r teulu

Llongyfarchiadau i Dorian a Sian Jenkins, Castell ar ddod yn ddatcu a mamgu am y tro cyntaf, mab bach o'r enw Penri i'w merch, Megan a Daniel yn Llanddewi Brefi. Yn yr un modd gorwyr bach newydd i John Davies, Bryncastell. Pob dymuniad da i chwi fel teulu.

Diolch

Dymuna Emyr, Cheryl, Tracey a theulu'r diweddar Vera Evans, 16 Bryn yr Eglwys ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a fynegwyd tuag atynt o golli gwraig, mam, mam-gu, hen fam-gu a chwaer annwyl.

Adran yr Urdd

Hoffwn achub y cyfle i ddymuno'n dda i aelodau'r Adran o flwyddyn 6 wrth iddynt gychwyn yn y Sector Uwchradd ac wrth ymuno gydag Aelwyd yr Urdd . Diolch iddynt am eu ffyddlondeb a'u cyfraniad gwerthfawr i weithgareddau'r Adran dros y blynyddoedd.

Cydnerthedd yn Llanbed

Pan dderbyniais wahoddiad Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant Llanbed i gyfarfod cyhoeddus ar 10 Mawrth fyddai'n trafod Cydnerthedd, nid oeddwn yn siwr beth i'w ddisgwyl. Y trefnwyr oedd yr Athrofa Cytgord (https://www.uwtsd.ac.uk/cy/yr-athrofa-cytgord/) a Chanolfan Cydnerthedd Llanbed. Bwriad y cyfarfod oedd trafod 'y gymuned', 'cynaliadwyedd' a 'dyfodol gwell'. Deallais cyn y cyfarfod bod Cydnerthedd yn cyfeirio at ein gallu i addasu mewn byd sy'n newid yn gyflym. Mae angen gwytnwch i oroesi'r newidiadau hynny. Mae hefyd yn golygu bod â'r weledigaeth i gydio o'r newydd mewn bywyd gwell er ein lles ni, natur, yr amgylchedd a'n byd.

Dechreuodd y cyfarfod gyda nifer o gyflwyniadau byr ac yna'r gynulleidfa yn rhannu'n grwpiau trafod. Cofnodwyd prif bwyntiau trafod pob grŵp a daeth y noson i ben gyda sesiwn holi ac ateb. 'Roedd yn noson ddiddorol a dadlennol, gododd y llen ymhellach ar fy nealltwriaeth o beth yw Cydnerthedd. Mae hefyd yn seiliedig ar ddatblygu llesiant a chryfderau personol a chymunedol, ar ddoethineb a'n dealltwriaeth o'n byd. Mae'n ymwneud ag hunanddibyniaeth, y defnydd o adnoddau, gwleidyddiaeth a chynllunio gofalus. Mae'n golygu bod â'r gallu mewn byd sy'n newid yn gyflym, i gydfyw, addasu a goroesi i wella'n byd a sicrhau gwell dyfodol. Mae hynny'n hynod o berthnasol yng nghyfnod y coronafeirws.

Diolch i'r trefnwyr am noson arbennig, gan edrych ymlaen at y cyfarfod nesaf. Gobeithio byddwch chithau yno hefyd!

Rhys Bebb Jones

Capel Brondeifi

Dymuniadau gorau am wellhad buan i'r gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis. Mae Alun Wyn wedi treulio cyfnodau yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac mae'r holl aelodau a ffrindiau Brondeifi yn meddwl amdano ac yn dymuno adferiad buan iawn iddo.

Ar yr 11eg o Fai bu farw Mr Ieuan Evans, 3 Drovers Road, Llanbed yn 83 oed. Roedd Ieuan yn rhan o deulu Drefach House - un o deuluoedd enwoca'r Undodiaid yn yr ardal. Bydd yn cael ei gofio fel dyn hoffus ac addfwyn a oedd yn grefftwr hynod fedrus. Cynhaliwyd ei angladd ym mynwent Brondeifi ar ddydd Sadwrn yr 16eg o Fai, dan ofal y Parch Goronwy Evans. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'i wraig, Iris; ei fab, Arwel, a'i ferch-yng-nghyfraith, Tersa; a'i wyr, Tomos.

Dymuniadau gorau i un o aelodau ffyddlon Brondeifi, Mrs Mary Davies, Rhosycoed, Llanwnnen. Mae Mary wedi treulio cyfnodau mewn ysbytai yn ddiweddar yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd. Mae ei chyd-aelodau'n meddwl amdani.

Bedyddwyr cylch Gogledd Teifi

Yn ystod y cyfnod anodd a gofidus sydd yn bodoli ers dros tri mis bellach un o'r profiadau yr ydym yn ei golli yn fawr iawn yw'r cyfle i gyd-addoli yn ein heglwysi ac i gymdeithasu yn dilyn yr Oedfa. Ond mae wedi bod yn brofiad hyfryd ac ysbrydoledig i fod yn rhan o'r myfyrdodau mewn llun a gair yn wythnosol ar You Tube. Mae ein dyled yn fawr i'n Gweinidog y Parch Densil Morgan a hefyd i Delyth sydd yn arbenigwraig yn y maes technoleg ac yn gyfrifol am y cyfan yn wythnosol. Ar Sul Mehefin 21ain dyma fentro i fyd Zoom a chynnal Oedfa fyw am 10 y bore dan arweiniad ein Gweinidog. Er i ni brofi ambell rwystr technegol cafwyd oedfa fendithol a hyfryd oedd gweld bron i ddeugain wedi troi mewn yn cynnwys aelodau, plant a ffrindiau'r achos.

Bydd oedfaon ar You Tube dan ofal Delyth yn ystod yr wythnosau nesaf ac yna eto ar Zoom am 10 ar Sul Gorffennaf 12fed edrychwn ymlaen i glywed ein Gweinidog yn traddodi ei neges.

Diolchir yn gynnes i aelodau'r cylch sydd wedi bod mor barod i gymryd rhan yn yr oedfaon. Pob dymuniad da i'r aelodau sydd mewn cartrefi gofal a'r rhai sydd yn teimlo'n anhwylus. Cadwch yn saff i gyd. Daw eto haul ar fryn.

Mae'n amser ymuno neu ail ymuno â Chlwb Clonc.
Dim ond £5 yr aelod, ond gallwch ymuno sawl gwaith er mwyn gwella ar y cyfle i ennill gwobrau ariannol misol.

Gan fod Papur Bro Clonc am ddim ar ein gwefan dros gyfnod Coronafeirws, gofynnwn i chi ymuno â Chlwb Clonc neu gynyddu'ch aelodaeth os hoffech ddangos eich gwerthfawrogiad o'r papur.

Yn anffodus, ni all ein gwirfoddolwyr alw gydag unigolion eleni er mwyn casglu arian aelodaeth, gofynnwn felly i chi ddanfon eich tâl aelodaeth ymlaen at drysorydd Clonc yn un o'r ffyrdd isod:

1. Llenwi'r ffurflen Archeb Banc (gyferbyn) a'i dychwelyd i'ch banc.

2. Talu drwy fancio ar lein. Ceir manylion Banc Clonc ar y ffurflen gyferbyn.

3. Neu ddanfon siec at drysorydd Clonc. Ceir y cyfeiriad gyferbyn.

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth.

CLONC

CLWB CLONC

Os na wnaethoch gytundeb archeb Banc y llynedd dyma gyfle i chwi wneud eleni. Bydd cael archeb Banc yn arbed llawer o waith i gasglu yr arian yn flynyddol. Llenwch y manylion isod a'i anfon yn ôl i Mrs Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder, Ceredigion. SA40 9YB.

Wrth gwrs os hoffech barhau i dalu â siec neu arian parod mae croeso i chwi wneud hynny o hyd. Llenwch y rhan gyntaf o'r ffurflen a'i hanfon yn ôl gyda'r arian i'r cyfeiriad uchod.

Byddwn yn falch ei dderbyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn parhad CLONC.

ENW: .....

CYFEIRIAD: .....

.....

CÔD POST: ..... RHIF FFÔN: .....

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i Clonc gyhoeddi'ch enw ac enw'ch pentref petaech yn ennill gwobr.

ARCHEB BANC / STANDING ORDER

I / *To* [eich banc chwi / *to your bank]* ..... Banc / *Bank*

Rhif didoli / *Sort Code:* .....- .....-.....

Cyfeiriad y Banc / *Bank Address*: .....

.....

Taler / Please pay Nat West, Llambed **53-61-42**

I gyfrif / for the credit of **CLWB CLONC** Rhif cyfrif: **03451526**

Y swm o / the sum of **£**

I ddechrau ar / commencing **1af o Orffennaf 2020** *1st July 2020*

Ac yn flynyddol wedi hynny ar Orffennaf 1af *Thereafter annually on 1st July*

nes y derbyniwch rybydd pellach gennyf drwy lythyr / *until you receive further notice from me in writing.*

Enw'r cyfrif i'w ddebydu / *Name of account to be debited:* .....

Rhif y cyfrif banc / *Account no*: ..... Llofnod / *Signature*: .....

Llanbed a Ffliw Sbaen 1918

gan Aled Morgan Hughes

Aled Morgan Hughes sydd wedi bod wrthi'n olrhain effaith Ffliw Sbaen ar Geredigion, ac yn benodol yn yr achos yma effaith yr haint ar dref Llanbedr Pont Steffan. Dyma'r hyn a gyhoeddwyd ganddo ar wefan Clonc360.

Gwta ganrif yn ôl wynebodd y Byd afiechyd argyfyngus arall – Ffliw Sbaen. Lledaenodd y ffliw i bedwar ban byd; o gyflafan y Rhyfel Byd Cyntaf yn Fflandrys, i bellafoedd ynysoedd anghysbell y Cefnfor Tawel. I'r rheiny a fu dioddef o'r haint byddai'r symptomau yn aml ddigon brawychus; y croen yn tywyllu, yr ysgyfaint yn mygu ar hylifau, a marwolaeth yn aml yn dilyn o fewn diwrnod neu ddau – neu hyd yn oed oriau. Byddai dynion ifanc yn eu hugeiniau yn nodedig archolladwy i'r haint; a nifer sylweddol o filwyr ar ddwy ochr yr ymladd yn syrthio i'r "Spanish Lady".

Gan ymddangos gyntaf ar droad 1918, profwyd anterth y ffliw mewn tair prif don; gydag ail don Hydref/Tachwedd 1918 y fwyaf niweidiol. Dyma oedd y don a gafodd yr effaith fwyaf trawiadol ar gymunedau ar draws Cymru a Phrydain, ac yn ei dro, trefi megis Llanbedr Pont Steffan.

Serch y cannoedd a fu farw yn nhon gyntaf y ffliw yn ystod Pasg/Haf 1918, a'r miloedd a heintiwyd ers Medi 1918 yng nghamau cyntaf yr ail don (yn eu plith y Prif Weinidog, David Lloyd George) – prin fyddai'r sylw cyhoeddus i'r haint newydd yma cyn Tachwedd 1918. Yn hytrach, gyda'r Rhyfel Byd Cyntaf yn prysur gyrraedd penllanw, cafodd sôn am yr inffliwensa ei sensori'n llym yng ngwasg Prydain, Ffrainc a'r Almaen er mwyn osgoi panig. Gwrthgyferbynnai'r sensori hyn gyda'r sefyllfa yn Sbaen – a oedd yn niwtral yn y rhyfel, ac felly'n rhydd i adrodd am hynt a helynt y salwch – gan felly gyfrannu tuag at ei enw adnabyddus; 'Ffliw Sbaen'.

Er amharodrwydd y wasg i adrodd hanes y ffliw yn ei ogoniant yn ystod y cyfnod hwn, yn gynyddol erbyn mis Hydref 1918 gwelwyd adroddiadau niferus yn dechrau ymddangos yn y papurau newydd lleol am farwolaethau milwyr dramor o inffliwensa neu niwmonia. Yn achos Llanbedr Pont Steffan, daw'r cofnod cyntaf o fath golled yn rhifyn Hydref 25ain 1918 o'r Cambrian News, gyda marwolaeth Miss Ella Richards – nyrs 31 oed a fu farw o niwmonia yn Salonica (Macedonia), ar Ffrynt dwyreiniol y rhyfel.

Ceir y crebwyll cyntaf i Ffliw Sbaen yng Ngheredigion yn rhifyn Tachwedd 1af, 1918 o'r Cambrian News – gan nodi fod "rapid advance" o'r haint wedi ei brofi mewn amryw o ardaloedd o'r sir. Gyfochr â'r datganiad yn rhybuddio am ledaeniad y ffliw, cafwyd hefyd adroddiad manwl gan Dr L. Meredith Davies (prif swyddog meddygol y sir) a chynigai fewnwelediad diddorol i'r camau y dylai trigolion eu dilyn mewn ymateb i'r haint:

"On first suspecting influenza the best advice is 'keep warm; go to bed and stay there.' Take an aperient e.g. Calomel, 1.2 grains at night, followed by Epsom salts in the morning. Call in a doctor. Ammoniated quinine is good, also a glass of hot lemon water at night while in bed. Gargle the throat with a diluted disinfectant. Plenty of fresh air is good, but avoid draughts.

People who are used to alcohol should be especially careful of not getting a chill. People suffering from influenza should remember that they are infectious and may give it to others.

Do not expectorate in public. Infected handkerchiefs, after use, should be well boiled or soaked in carbolic or burnt. Isolation – A person with influenza should occupy a room apart from the rest of the household. Do not go to work or go to school if influenza is suspected."

Mae'n amlwg o gofnodion y cyfnod i'r ffliw daro tref Llanbedr Pont Steffan yn ystod yr ail don hon ddiwedd Hydref 1918, gydag erthygl o'r un rhifyn yn nodi "There are several cases at Lampeter, almost every street being infected".

Yn ddiddorol iawn, noda'r un adroddiad – "the epidemic is confined mostly to children" – gyda'r farwolaeth gyntaf o'r haint yn y dref yn cael ei phrofi ar Ddydd Llun 28ain o Hydref 1918 – merch Mr Morgan Richards, a oedd ond yn 13 mlwydd oed. Nodwyd iddi fynychu'r ysgol leol yn holliach ar y dydd Gwener cyn ei marwolaeth.

Wythnos yn unig wedi marwolaeth Miss Richards, gwelwn hefyd farwolaeth sydyn un o drigolion ifanc eraill y dref o'r ffliw; sef Johnny Davies, Brondeifi House – ac yntau hefyd ond yn 13 mlwydd oed. Nodwyd yn y Cambrian News – "He was taken ill on Wednesday and succumbed to double pneumonia on Friday night".

Yn achos Miss Richards a Johnny Davies ddaeth eu hoedran ifanc a'u marwolaeth hynod sydyn o'r haint i gymeriadu rhai o rinweddau fwyaf nodweddiadol Ffliw Sbaen – a fyddai'n creu tor-calon a chodi braw mewn cymunedau ar draws y Byd.

Nid yn unig yr ifanc fu'n dioddef o'r salwch yn y dref ychwaith. Erbyn diwedd Hydref 1918, cofnodwyd ambell farwolaeth arall yn y lleol, yn ogystal â nifer o achosion o'r ffliw ymysg poblogaeth carcharorion rhyfel Almaeneg a oedd wedi eu sefydlu yn y dref – "GERMAN PRISONERS ILL AT LAMPETER" ebychai un erthygl o'r Cambrian News.

Mae'n rhaid cofio roedd Llanbedr Pont Steffan yn 1918 yn le gwahanol iawn i'r presennol. Gyda'r cyd-destun o ryfel gwaedlyd, ynghyd ac absenoldeb gwasanaeth iechyd cenedlaethol – a hyd yn oed prinder adran iechyd penodedig yn y Llywodraeth – prif gyfrifoldeb yr awdurdodau lleol oedd hi i weithredu'n briodol er mwyn mynd i'r afael â her y ffliw.

Yn benodol, caewyd holl ysgolion y sir (penderfyniad a fyddai'n parhau tan Ionawr 1919), ac aethpwyd ati i ohirio amryw o ddigwyddiadau o bwys – gan gynnwys noson o "dramatic entertainment" yn Neuadd Victoria ar Nos Fercher 30ain o Hydref 1918. Mae'n ymddangos na fu i'r dref ganlyn trywydd rhai trefi cyfagos gan beidio gwahardd rhai gwasanaethau crefyddol – fel y bu'r drefn yn Aberystwyth.

Un o nodweddion amlycaf lledaeniad yr inffliwensa yn y dref ddiwedd mis Hydref/dechrau Tachwedd oedd anallu'r drefn feddygol leol i ymdopi â'r lledaeniad. Nodwyd yn rhifyn Carmarthen Journal fis Tachwedd 1918:

"The influenza is still spreading and we regret to state that Dr Rowlands, Dr Griffiths, Dr Evans and Dr Bankes-Price, Dolau are suffering from its grip, so that there is only one medical gentleman in the borough, viz. Dr Clunglas Davies, medical officer of health, to attend the numerous patients"

Pwysig yw nodi, nid ffenomena unigryw i Lambed oedd y gyfradd uchel o'r doctoriaid a fu ddioddef o'r ffliw ychwaith – gydag adroddiadau niferus am ardaloedd ar draws Prydain a'r Byd yn nodi'r straen sylweddol wynebodd doctoriaid a nyrsys wrth geisio trin yr haint. Rhoddwyd straen mwyfwy ar y ddarpariaeth iechyd lleol yn sgil prinder doctoriaid ar y ffrynt cartref yn y cyfnod – gyda nifer wedi teithio i Ffrainc i gefnogi'r ymgyrch filwrol.

Gydag anterth yr ail don farwol hon yn cael ei phrofi yn wythnosau cyntaf Tachwedd 1918, cyd-darodd â chadoediad y Rhyfel Byd Cyntaf ar Dachwedd 11eg 1918. Croesawyd y cadoediad gyda rhyddhad a dathliadau mewn cymunedau ar draws Prydain – gan gynnwys Llanbedr Pont Steffan; noda'r Camarthen Journal:

Llanbed a Ffliw Sbaen 1918

gan Aled Morgan Hughes

"Lampeter rose to the occasion when the news of Germany's complete surrender reached the town on Monday. Enthusiastic crowds gathered in the streets, bunting was displayed, and in the evening the enthusiasm reached its climax, when houses were lighted, patriotic choruses sung, and a grand display of fireworks. The students of St David's College, several of whom had been in the fighting line, addressed the crowds and the burning in Harfod-square of the Kaiser's effigy finished a grand display. Wednesday was declared a general holiday."

Serch y dathlu, parhaodd y ffliw i daflu cysgod dros y dref a'i thrigolion. Adlewyrchwyd hyn yng nghyfarfod y Cyngor Tref yr 11eg o Dachwedd – ychydig oriau wedi'r cadoediad. Eitem gyntaf y cyfarfod fyddai i gytuno i anfon telegram o longyfarch i Lloyd George (a llythyr tebyg i Arlywydd Ffrainc a'r UDA), ond o fewn dim hoeliwyd sylw'r cyfarfod ar fygythiad Ffliw Sbaen. Nodwyd yn y Cambrian News:

"Alderman Walter Davies proposed that a disinfectant should be put in the watering cart for the purpose of preventing the spread of epidemics – the proposition was seconded by Councillor D F Lloyd and carried."

Ar lawr gwlad, serch y dathliadau, yn ôl rhifyn 22ain o Dachwedd 1918 o'r Cambrian News, parhau i ledu y bu'r haint yn y dref –

"The influenza epidemic shows no signs of abating, but no deaths have occurred lately. Amongst the victims are the Revs Wesley Morgan, Oswald Williams and Ll Davies Siloh; and Mr H. Rees, OBE, Liberal agent."

Mewn amryw o drefi ar draws Prydain a'r Byd, bu i iwfforia'r cadoediad a'r dathliadau ddilynodd arwain tuag at ledaeniad pellach o'r ffliw erbyn diwedd fis Tachwedd 1918. Fodd bynnag, yn achos Llanbedr Pont Steffan, mae'n ymddangos erbyn diwedd 'Black November' 1918 y bu i anterth y ffliw ddirywio'n sylweddol yn y dref – gyda gwaith y Cyngor Tref yn cael ei ganmol wrth fynd i'r afael â'r haint. Noda'r Carmarthen Journal:

"It is satisfactory to find that the influenza scourge is abating, and that no new cases have been reported the last few days. The use of disinfectants in public buildings and private houses has been freely indulged, and everything possibly to prevent its spreading".

Mae'n ddiddorol nodi y bu i'r dirywiad yma yn y ffliw yn Llanbedr Pont Steffan wrthgyferbynnu gydag ardaloedd eraill cyfagos o'r sir – gyda'r inffliwensa yn parhau i daflu ei gysgod dros amryw o gymunedau gychwyn fis Rhagfyr 1918. Mae'n ymddangos fod ei afael yn benodol amlwg yn ardal Tregaron a Llanddewi Brefi, gyda rhifyn 29ain o Dachwedd 1918 y Cambrian News yn nodi:

"Tregaron Guardians met on Tuesday, Mr D J Williams, chairman, presiding. The Chairman drew attention to the spread of influenza at Llanddewi Brefi and Tregaron. In some houses at Llanddewi as many as ten and eleven persons and whole families were laid up, and on Monday morning as many as four persons in the district had died."

Dr Lloyd, Tregaron, was being called out day and night and there was a danger of his health breaking down. Dr Davies, Bitch Hill was home on leave from the army and he suggested that representations be made to the Local Government Board and the army authorities to allow him to remain fro at least a month to release Dr Lloyd. That was agreed to."

Atgyfnerthwyd dirywiad y ffliw yn y dref erbyn diwedd Tachwedd 1918 gydag erthygl yn y Carmarthen Journal yn ceisio gwrthbrofi honiadau o 'Smallpox' yn y dref – noda'r erthygl:

"It is we hear, persistently that there is a case of small pox In Lampeter, and we are authorised by the Health Department to most emphatically deny each rumour. There is no case of infectious disease of a notifiable character in the town, nor has there been any for some three or four months, and then only scarlet fever. The same rumour should not be believed. Lampeter is a health town with a good water supply, sufficiency of proper sanitary water closets and good sewerage, and anyone wishing can visit Lampter without fear".

Mae'r cyfeiriad hyn tuag at afiechydon megis Smallpox a Scarlet Fever yn ddiddorol – ac yn awgrymu mae nid newydd oedd heintiau megis Ffliw Sbaen i gymdeithas y cyfnod, ond yn hytrach fod ymweliadau math salwch yn ffenomena gymharol gyfarwydd yn y dref a chymdeithas y cyfnod.

Yn sicr erbyn dechrau mis Rhagfyr 1918 gwelwn o bapurau newydd y cyfnod bod crebwyll i achosion a marwolaethau o'r ffliw yn nhref Llanbedr Pont Steffan wedi gostwng yn sylweddol. Serch hynny, parhawyd i weld ei effaith ar y dref a'i chymuned – gyda marwolaeth Richard Morgan, morwr ifanc o'r dref. Yn debyg iawn i'r nyrs Ella Richard, gadawodd Richard Morgan y dref i gefnogi'r ymgyrch filwrol, ond ni fu fyth iddo ddychwelyd – gan yn hytrach syrthio i'r ffliw. Noda rifyn y Carmarthen Journal o 29ain o Dachwedd 1918 –

"It is with sincere regret we chronicle the death of Mr Richard (Dicky) Morgan, the only son of Lieut Morgan and Mrs Morgan, Fountain Inn, Lampeter which occurred in Cork Hospital on Tuesday. Mrs Morgan received a wire the previous day to the effect that her son was seriously ill with influenza and pneumonia, and she and her younger daughter went at once to Cork, but was dead before their arrival. Young Morgan, although only 19 years old was a mate in the Royal Navy, and if he had lived a bright career awaited him".

Bu'r llynges yn nodedig o archolladwy i'r haint, gyda bron 40% o forwyr yn llynges yr Unol Daleithiau yn dal yr haint ym misoedd olaf y Rhyfel Byd Cyntaf.

Bu farw dros 10,000 o bobl ar draws Cymru o Ffliw Sbaen – ac mae'n amlwg o'r adroddiadau uchod na fu i dref Llanbedr Pont Steffan ddianc yn llwyr o ddicter yr haint. O adroddiadau papur newydd y cyfnod, gwelwn y cafodd Ffliw Sbaen effaith ar agweddau amrywiol o fywyd y dref – gan gynnwys cau ysgolion, gosod pwysau ar ddarpariaeth iechyd lleol, ac ambell farwolaeth drasig. Daeth amryw o'r nodweddion hyn yn nodweddiadol o'r haint a'i heffaith ac etifedd ar gymunedau ledled y Byd.

Fodd bynnag, wrth ystyried erchylltra rhyngwladol y ffliw yn ystod misoedd olaf 1918, er taflu cysgod dros y dref a'i thrigolion, ar y cyfan mae'n ymddangos y llwyddodd Llanbedr Pont Steffan i osgoi'r gwaethaf o'r haint hon – ac yn sicr ni ddioddefodd y dref cyn waethed ac amryw o gymunedau eraill ar draws Ceredigion a Chymru.

Adolygiad 'Heb Law Mam'

www.sonamlyfra.com

Rhaid i mi gyfaddef, pan welais i'r clawr (sy'n effeithiol iawn btw) a'r strapline 'Cemo fel caead bedd,' doeddwn i ddim yn siŵr os byddai'r llyfr yn apelio. Ar ôl teimlo digon down efo'r holl fusnes lockdown a coronavirus, doeddwn i ddim awydd darllen rhywbeth oedd am wneud i mi deimlo'n fwy fflat. Wel – pa mor anghywir o'n i? Dwi'n gweld rŵan pam fod y Saeson yn dweud 'Don't judge a book by it's cover,' a dwi'n falch iawn mod i wedi ei ddarllen. Beth sy'n ddiddorol yw mai llyfr wedi ei anelu at y grŵp oedran 11-14 yw hwn OND fel dyn tipyn yn hŷn na'r gynulleidfa darged, mi wnes i ei fwynhau'n arw. Felly, peidiwch â gwneud y camgymeriad o feddwl mai llyfr i teenage girls yn unig yw hwn chwaith.

Prif gymeriad y stori yw Efa, merch ysgol sy'n gorfod wynebu pob math o sialensau arferol yr arddegau fel ffrindiau (neu ddiffyg), tad embarassing, bwlis, athrawon, ac wrth gwrs…y cariad cyntaf. Ar ben yr usuals, mae ei mam ar fin rhoi genedigaeth AC yn dioddef o gancr y fron. Er fod na themâu dwys yma, mae 'na hiwmor drwyddo draw ac o ganlyniad fe gawn lyfr sy'n andros o hawdd ei ddarllen – mae'r jôcs yn balance-io'r darnau trist yn dda.

Mae'r llyfr yn llawn o ddarnau bach doniol a wnaeth i mi wenu. Ddim cweit 'run peth allan o gyd destun ond dyma rai o fy ffefrynnau:

Efa'n disgrifio'r giang o ferched fel "côr o lyfu tîn."

Mam Efa'n sôn am Britney Spears a dim clem gan Efa pwy oedd hi!

Arsylwadau Efa o dalentau'r athro druan, Mr Llywelyn: "Roedd ei wersi yn draed moch fel arfer."

Cai'n disgrifio Gwen a'i sterics fel "Shani Cyffyffl" (gair da… cyffyffl!)

Cracking one-liner i ddisgrifio Dylan (cradur) fel "Striflyn o grwt. Roedd mwy o gig mewn chicken nugget."

Athrawes uwchradd ydi'r awdur, ac er mod i'n gwybod hyn gynt, roedd yn amlwg yn yr ysgrifennu. 'Write what you know', maen nhw'n ddweud yndê? Wel, mae hi'n nabod ei chynulleidfa i'r dim ac mae'r ddeialog, y sefyllfaoedd a'r cymeriadau on point! Mae'r stori'n darllen yn naturiol iawn – dim fel oedolyn yn trio 'sgwennu'n cŵl neu'n ceisio bod down with the kids.

Cafodd y rhamant slow burner rhwng Efa a Cai ei gyflwyno'n fedrus ac roedd yn hollol gredadwy- fel y ffordd mae hi'n gwirioni a chael gwefr jest o gyffwrdd blaen bys ag ef. Neu'r awkward moment wrth iddyn nhw "ffarwelio'n drwsgl" ar ôl bod am 'wâc' – yr hen sefyllfa to go in for the kiss or not? – 'da ni gyd wedi bod yna! Darnau fel hyn oedd yn mynd a fi'n syth yn ôl i fod yn bymtheg oed eto!

Roedd 'na ddarnau o'r llyfr fyddai'n apelio at ddarllenwyr hŷn hefyd - daeth yr atgofion i gyd yn ôl ym mhennod y ffeit fawr yn y coridor. Gwenais wrth ddarllen am Mr Lewelyn druan yn "difaru iddo beidio ymddeol y llynedd," neu'r pennaeth yn syllu'n "hiraethus drwy'r ffenestr." (know the feeling!) Roedd y penodau yn yr hen ysgol gynradd gaeedig yn deimladwy iawn ac yn adlewyrchiad o'r tristwch ym mywyd Efa ar y pryd a'r hiraeth am ddyddiau gwell. Gwyddwn o brofiad nad oes does dim byd mwy digalon na ysgol yn cau; y dosbarthiadau gwag heb fwrlwm a sŵn plant...

Mae Efa druan yn cael hard time gan ei "ffrind" Gwen, sy'n bell o fod yn ffrind mewn gwirionedd. Hen sguthan o hogan ydi hi a bydd hon yn gymeriad y bydd sawl un ohonom yn ei gofio neu adnabod. Y person 'na sy'n smalio bod yn ffrind ond 'da chi'n gwybod nad ydynt yn gwneud daioni i chi. Gwyddai Efa hyn yn iawn ond fod yr angen am gwmni'n gryfach na bod ar ei phen ei hun. Mewn ffordd, ymdebyga Gwen i dyfiant y cancr – rhywbeth drwg oedd angen ei dorri ymaith.

Yn ôl Heiddwen Tomos, "neges y stori yw bod cyfnodau ym mywydau pawb yn gallu bod yn anodd, ond daw eto haul ar fryn." Erbyn y diwedd, mae gan Efa support network o bobl i'w helpu i wynebu'r heriau a dwi'n falch fod na rywfaint o obaith yn y pen draw. Efallai fod 'na le i ail-ymweld ag Efa mewn blynyddoedd i ddod a gweld lle bydd hi'n mynd nesaf.

Yn wahanol i rai straeon tebyg yn y genre, nid dyddiadur a geir yma ac felly cawn ddarlun ehangach, mwy amrywiol na safbwynt Efa'n unig – roedd hi'n ddiddorol edrych ar berthynas Cai a'i fam hefyd. Mae'r dŵdls yn ychwanegu rhywbeth hefyd, er, yn bersonol dwi'n meddwl fasa'r llyfr wedi gallu gwneud efo mwy.

Ceir yma'r cynhwysion i gyd ar gyfer stori berffaith i'r arddegau. Mae 'na ddigon o dristwch, emosiwn, anwyldeb a thynerwch i greu cymeriadau rydan ni'n malio amdanyn nhw, ac wrth gyfuno hyn â hiwmor, text message screenshots a sefyllfaoedd credadwy, mae'r awdur wedi llwyddo i greu campwaith.

Os ydach chi rhwng 11-14, mynnwch gopi reit handi a darllenwch o 'da chi. Ac os ydach chi o unrhyw oedran dros 14, yr un yw'r cyngor!

Ôl nodyn – Hollol random - am flynyddoedd ron i'n meddwl mod i'n weird am gario sachets halen yn fy waled, ond ar ôl darllen am Cai a'i fêt yn smyglo halen i'r 'ysgol iach', dwi'n teimlo'n well nad fi yw'r unig un sy'n licio sprincl o'r good stuff ar fy sglods!

Gwefan yn llawn adolygiadau o lyfrau i blant a phobl ifanc yw 'Son am Lyfra'. Yng Nghymru rydan ni lwcus iawn fod gennym gymaint o awduron a llyfrau Cymraeg ffantastig i blant a phobl ifanc. Mae'r wefan yn dathlu'r rhain, yn rhywle i gael sgwrs am y llyfrau ac yn cyflwyno adolygiadau hawdd i'w darllen. Y gobaith ydi y bydd y rhain o gymorth i chi ffeindio'r llyfr perffaith.

Mae'r wefan o ddefnydd i blant, pobl ifanc, rhieni, athrawon neu unrhyw un sydd â diddordeb. Mae popeth ar gael yn ddwyieithog ac mae modd i chi gyfrannu adolygiadau a rhoi eich barn am y llyfrau yn y blwch sylwadau.

Mae Morgan Dafydd yn un o weinyddwyr y wefan. Dywed "Be rydym ni wirioneddol angen ydi sgwad o adolygwyr i sgwennu adolygiadau byr (neu glipiau fideo byr) ar ôl darllen nofelau newydd (neu hen lyfrau) plant a phobl ifanc. Dani wir isio plant a phobl ifanc yn cyfrannu. Mae'n hawdd iawn iddyn nhw yrru nhw fewn atan ni dros y cyfryngau cymdeithasol neu'r ebost sonamlyfra@aol.com"

"Mae genym ni dudalen adnoddau sy'n cynnwys tips a thempledi 'Sut i adolygu llyfr' hefyd ar y wefan. Gall bobl yrru adolygiadau neu ein dilyn ar Facebook, Instagram a Twitter yn ogystal â'r wefan www.sonamlyfra.cymru."

Bois Home Guard ardal Llanybydder



Ym mlwyddyn nodi 75 blynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, dyma gydnabod rhai o'r werin am eu cyfraniad hwy yn lleol. Tynnwyd y llun yn Ysgol Coedmor a daeth y penillion hyn i law gan y diweddar Cledwyn a Nancy Evans, Caeralaw, Cwmann gynt. Pwy oedd y bardd tybed?

Mae gennyf heno stori
Un newydd fflam heb oeri
Am helyntion bois Home Guard.
On'd o'n nhw'n gang fach deidi?

Rwy'n cofio mis Mehefin
Pan alwyd hwy i'r fyddin,
Heb un dryll na bidog llym
I arfer ond rhyw bolyn.

Doedd neb â siwt o ghaki.
Roedd hwn yn brin bryd hynny.
Dillad gwaith a throwsus rib
A sgidiau fel y frân-ddu.

Cyn hir cawd gwisg fel felfed,
Cot fawr a chap i ateb.
Gwelwyd hwy cyn hir gan rai
Yn gyrru da i Lambed!

B.J. oedd pen y fyddin.
Un da am dreinio'r bechgyn.
Evan Rhewl yn cario'r gwt,
Rhodd bwt i lawer llibyn.

Wrth fartsio braidd yn fuan
A'r bois mewn chwys yn pwffian,
Chwarddodd rhai o'r bois yn iach
Roedd 'Rip' yn nhrowsus Evan.

Wrth arfer amryw noson
Roedd y staff i gyd yn Saeson.
Wedi colli'r iaith Gymraeg
Wrth waeddi "Halt", "Attention".

Pan ar Parade rhyw adeg
Ar chwys yn dechrau rhedeg
Gwaeddodd un o'r Sergeants -
"Wheel"
Mae tafarn Ram'n agored.

Fe dreuliwyd llawer orig
Yng ngodre Cwar Coedeiddig
Er mwyn arfer taflu bombs
Pe doi y gelyn haerllug.

Ond dwedodd un o'r bechgyn
Wrth daflu bomb yn sydyn
"Gwastraff yw ar arian gwlad,
Dewch i fombio pwll salmonin".

Fe godwyd shanti deidi
Er mwyn i'r bois gysgodi.
Tynnu plans pan ddoi yr awr
I groesi afon Teifi.

Rhyw noson fel y fagddu
Llygoden fach fu'n crafu.
Gwaeddodd rhywun nerth ei geg
Fod "Spy" o dan y shanti.

Roedd un gerllaw Blaenblodau
Pan welodd gath wen olau.
Trodd yn ôl ynghynt na'i gwt.
Aeth adre nerth ei fagle.

Un arall ger Glaneiddig
Ar "Night Patrol" yn unig.
Llefodd hen ddylluan goch.
Aeth dros ei ben i'r Eiddig.

Mi wn am un go heini.
Un da oedd hwn am saethu.
Saethodd iâr ar ben y gât
Trwy ffenestr fach y pantri.

Ond cyn pen nemor ddyddiau
Maestrolwyd oll o'r driliau.
Troi yn ôl ar sgwâr Cwmann
Heb golli un o'i sgidiau.

Gorchmynwyd mynd i Lambed
Heb gyffro un o'r deiliaid,
Heb fynd dros bont, na iwso
planes
Ond arfer brains a cherdded.

Pan ddowd hyd lannau Teifi,
O boi, sut oedd mynd trwyddi?
Dŵr yn oer a'r cerrig yn slic,
Doedd fawr o dric i foddi.

Fe soniodd rhywun am dwba
I groesi'n Lletty twpa.
Pan ddaeth Evan ar y bwrdd
Fe sincodd yr hen dwba!

Wel bois, yr oedd 'na dyrfa
Yn edrych yn go smala.
Evan Rhewl yn llyncu'r dwr
Wrth ganu "Rule Britannia".

Bu amryw golledigion
Ar lan, ac yn yr afon.
Golwg rhai o liw y clau
A'u sgidiau 'ng ngodre'r afon.

Gwnaeth Dic a Reggie Castell
Rhyw stretcher o ddwy astell.
Rhowd John Powell arni'n dwt
Pan gollodd rym ei asgell.

A chwarae teg i'r bechgyn.
Ni wyddent beth oedd training.
Bois a fagwyd yn ddi-nam
Fel blodau teg y ddyffryn.

Rhowd "Pep" go dda i'r bechgyn
Sef Bwli Beef a phwdin,
Rhedeg milltir mewn un sprint
Yw'r ffordd i dreino byddin.

Bu'r fyddin wedi hynny
Yn gatrawd gref a theidi,
Swingo'r traed pan ar eu taith
Nes oedd y dwst yn codi.

Ar ddiwedd y disgyblu
Daeth bois B.J. i fyny
Yn wroniaid heb eu bath
Ym mysg goreuon Cymru.

Hydref 23rd 1945

Holi Dyfed o Seland Newydd

gan Ifan Meredith

1. Rho ychydig o dy gefndir.

Gwnes i dyfu lan yng Nghribyn gyda fy chwaer Hâf a'n rhieni, Ronald a Morwen. Nawr rydw i yn byw yn Hamilton gyda fy ngwraig Greta sy'n wreiddiol o Hamilton a'n merch Seren sy'n bedair oed. Dinas o tua 160,000 o bobl yw Hamilton, yng nghanol ynys y gogledd tua dwy awr i'r de o Auckland, ac wrth gwrs yn gartref nawr i Warren Gatland a'r Chiefs!

Es i ysgol gynradd Cross Inn, Llanon, lle'r oedd mam yn dysgu, ac wedyn i'r ysgol uwchradd yn Aberaeron.

Es i brifysgol yng Nghaerdydd lle raddiais mewn Astudiaethau Morwrol yn 1997. Wedyn ôl-radd yn Nhrefforest mewn Systemau Gwybodaeth Daearyddol a graddio yn 2001. Yna ar ôl bod yn Seland Newydd am dipyn, gwnes uwch ddiploma mewn Iechyd Cyhoeddus yn Ysgol Feddygol Wellington, Prifysgol Otago.

Ers tua 2003 rydw i wedi gweithio rhan fwyaf ym maes iechyd cyhoeddus a phenderfyniadau iechyd ehangach. Heddiw rydw i yn gweithio fel un o'r rheolwyr yn Uned Iechyd Cyhoeddus sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Rhanbarthol y Waikato yn Seland Newydd. Rydw i yma ers jyst dros ddwy flynedd.

2. Ers pryd wyt yn byw yn Seland Newydd?

Des allan yma i Wellington am y tro cyntaf yn 2003, am naw mis i ddechrau! Bues yn byw yno tan 2008, cyn bwrw nôl am Brydain a theithio De America ar y ffordd. Rydyn wedi bod nôl a 'mhlan peth, yn byw yn Llundain tan 2010, wedyn Hamilton nes mynd nôl i Lundain yn 2014 lle cafodd Seren ei geni yn 2016. Ni nôl yma ers Ionawr 2018 nawr.

3. Beth yw dy rôl di yn Iechyd Cyhoeddus?

Rydw i'n rhedeg tîm o ddadansoddwyr data a daearyddol, dadansoddwyr polisi, ymchwilwyr a dylunydd graffeg. Rydw i yn hoffi'r amrywiaeth mae'r swydd yn ei gynnig.

4. Pryd ddechreuaist ar y gwaith cynllunio ar gyfer COVID-19?

Fe gawsom ein hachos cyntaf ar y 18fed o Fawrth, ond gwnaeth y paratoadau ddechrau yn bell cyn hynny gyda'r tîm rheoli digwyddiadau yn cael ei sefydlu ar y 23ain o Ionawr, diwrnod ar ôl i Sefydliad Iechyd y Byd gyhoeddi fod y sefyllfa yn argyfwng iechyd cyhoeddus rhyngwladol.

5. Pa sefydliadau eraill ydych chi'n gweithio yn agos gyda?

Fel rhan o Fwrdd Iechyd Rhanbarthol y Waikato rydym yn gweithio gyda thimau rheoli digwyddiadau sydd mewn cyswllt â'r ysbytai a'r gofal iechyd sylfaenol yn y rhanbarth. Hefyd rydym yn gweithio gyda'r Weinidogaeth Iechyd. Rhan fawr o'r gwaith hefyd yw gwneud yn siŵr fod anghenion lles y bobl sy'n gorfod hunan ynysu neu o dan gwarantîn yn cael eu cwrdd, ac rydym yn gweithio efo gwasanaethau lleol i wneud hyn. Hefyd rydyn ni'n gweithio yn agos gydag Amddiffyn Sifil Seland Newydd.

6. Pwy oedd yn gyfrifol am 'track and trace' yn eich ardal?

Yn fyr, ni oedd yn gyfrifol am hyn ac rydyn ni wedi ei wneud ers y dechrau. Fel arfer dim ond dwy nyrs iechyd cyhoeddus sydd gyda ni i wneud y gwaith hwn, ond roedd rhaid i ni gael llawer mwy o rannau eraill o'r sefydliad ehangach tan oedd tua 12 nyrs a dros 10 yn gwneud galwadau lles.

7. Sut lwyddoch i gadw'r achosion a'r marwolaethau mor isel yn Seland Newydd?

I ddechrau, mae Seland Newydd yn lwcus ei bod yn ynys yn bell o'r rhan fwyaf o lefydd, mae'n dair awr o hedfan i'r wlad agosaf. Ond y prif bethau oedd cau'r ffin yn gynnar, ar y 19eg o Fawrth pan dim ond 28 o achosion oedd gyda ni yn y wlad.

Wedyn aethom i mewn i "lockdown level 4" ar y 25ain o Fawrth pan oedd 280 o achosion yn y wlad, dull "go hard, go early" oedd hi. Y peth arall pwysig oedd y system o 'track and trace' lle roedden ni'n gallu canfod pobl oedd wedi bod yn gysylltiedig ag achosion yn glou a'u hynysu.

8. Beth ydych chi'n cynllunio ar ei gyfer nawr yn Iechyd Cyhoeddus?

Er bod yr argyfwng drosodd am nawr, rydyn ni yn cynllunio am y dyfodol oherwydd fe gawn ni ragor o achosion. Dim ond tua thrydydd o'r Uned sydd ddim yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws. Mae'r brechlyn o leiaf deunaw mis bant, felly mae eisiau paratoi a dysgu o'n profiad. Rydym wedi sefydlu tîm strategaeth i gydlynu pethau ac rydym yn dechrau recriwtio ar gyfer y tîm "track and trace", neu "contact tracing", fel mae'n cael ei alw yma. Hefyd rhan helaeth o'r cynllunio yw cryfhau ein sgiliau a dysgu'r systemau newydd; cyn i Covid-19 fwrw doedd dim system ar raddfa mor fawr i ddelio gyda chlefydau heintus i gael.

9. A oedd hi'n weddol rwydd cynnwys lledaeniad y feirws mewn gwlad sydd yn fwy gwledig a lle mae'r boblogaeth wedi cael ei lledaenu ar draws y wlad?

Er bod y wlad tua maint Prydain gyda dim ond pum miliwn o bobl mae rhan fwyaf o'r bobl yn byw mewn dinasoedd ac mae gan Auckland dros filiwn o bobl. Hefyd gellir hedfan o gwmpas y wlad yn hawdd, felly gall pethau newid yn glou iawn.

10. Pa fesuriadau sydd dal gennych yn eu lle nawr ar gyfnod clo lefel 1?

Mae lefel 1 fel bywyd normal, ond gyda'r ffiniau ar gau. Does ddim eisiau cadw pellter cymdeithasol rhagor ond mae pobl yn cael eu hannog i nodi ble maen nhw wedi bod.

11. Pa mor llym oedd y cyfyngiadau pan oeddech yng nghyfnod clo lefel 4?

Dim ond pethau angenrheidiol oedd yn cael eu gwerthu, hyd yn oed ar y we. Dim ond archfarchnadoedd a gorsafoedd petrol oedd ar agor. Roeddech yn gallu mynd allan i gerdded ond dim ond o amgylch eich cartref.

12. Sut oedd pobl yn ymateb i'r wahanol gyfyngiadau yn eich gwlad chi?

Ar y cyfan, roedd pobl yn dilyn y cyfyngiadau; roedden ni'n lefel pedwar am chwe wythnos ac roedd pobl eisiau ychydig mwy o ryddid erbyn hynny!

13. Pa ardal sydd wedi dioddef y mwyaf o farwolaethau ac achosion COVID-19?

Yn y Waikato fe gawsom 188 o achosion ac un farwolaeth, a ni oedd yr ail ranbarth o ran achosion fesul poblogaeth. Rhanbarth y de oedd â'r gyfradd fwyaf.

14. Beth wyt yn gobeithio bydd yn digwydd nesaf?

Bod Prydain yn gostwng nifer o achosion! Fel ein bod yn gallu dod nôl i weld teulu wedyn, fel roeddwn wedi bwriadu gwneud haf yma.

Arwyddiaith gan Briallt Wyn Williams

Nawr bo' fi adre o'r brifysgol a bod haf hir o fy mlaen i rwy'n meddwl neud rhywbeth gwerth chweil gyda fy amser trwy helpu pobl i ddysgu Arwyddiaith.

Bydd yn gyfle i ddysgu mewn ffordd hwylus a didrafferth. Felly, os oes gennych ddiddordeb, darllenwch y darn isod a ma' croeso i chi gysylltu â fi am ragor o wybodaeth.

Fel ma rhai ohonoch chi'n gwbod, yr unig ffordd rwy'n gallu siarad â Dadcu a Mamgu sef Gerwyn a Lorraine Williams yw trwy sign language am fod y ddau'n fud ac yn fyddar gyda mamgu hefyd yn ddall.

Oherwydd hyn, rwyf wedi bod yn ei ddefnyddio fel ffordd o gyfathrebu ers i mi fod yn 4 blwydd oed. Dwi ddim hyd yn oed yn cofio gorfod ei ddysgu a ma' fe'n rhan hanfodol i fywyd ein teulu ni, a miloedd o deuluoedd eraill hefyd.

Yn ddiweddar, wrth ddechrau meddwl am yrfa, es ati i edrych ar-lein i gael tystysgrif swyddogol i ddangos fy ngallu i wneud BSL (British sign language). Ond, yn anffodus, doedd y broses ddim yn un hawdd, yn enwedig i'r rhai sy'n dechrau dysgu, am 2 reswm… Roedd naill ai opsiwn i wneud cwrs ar-lein a dysgu'ch hunan (sy'n golygu nad oes o reidrwydd gyda chi rywun i ymarfer, sydd, yn fy marn i, yn hanfodol wrth ddysgu iaith newydd, yn enwedig BSL!) neu, opsiwn arall oedd i dalu'n ddrud am gwrs gydag arweiniad proffesiynol.

Felly, rwy'n barod i gynnig cymorth i unrhyw un sydd wrthi'n barod, sydd â diddordeb i ddysgu neu sydd eisiau gwybod mwy.

Bydda i'n creu cyfres o fideos ar Facebook a hefyd cynnal sesiynnau zoom er mwyn helpu chi i ymarfer. Sdim 'da fi cymhwyster i ddysgu'n broffesiynol ond cyfle yw hyn i ddysgu mewn ffordd hwylus gyda'r opsiwn o wneud hynny'n Gymraeg hefyd.

Rwy'n gwbod mwy na digon i allu dysgu chi shwt i siarad â rhywun sy'n fud neu'n fyddar. Wir i chi, mae e'n haws na chi'n meddwl ac mewn llai na mis byddwch chi'n gwybod digon i allu cynnal sgwrs.

Chi byth yn gwbod pryd fyddwch chi angen y sgil hyn, boed yn eich bywyd cymdeithasol neu'n broffesiynol. Mae e fel dysgu iaith newydd ond llawer haws (os chi'n gwbod y wyddor chi hanner ffordd 'na yn barod!) a llawer mwy gwerthfawr!

I bobl mud a byddar, dyma eu hunig iaith a'u hunig ffordd o gyfathrebu felly mae gallu siarad tamaid â rhywun mewn BSL yn meddwl shwd gyment iddyn nhw a ma' gweld y wên ar wyneb Mamgu a Dadcu pan ma' rhywun yn ymdrechu i siarad â nhw yn profi gwerth yr iaith hon!

Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch â fi ar Facebook a pheidiwch â bod ofn rhoi cynnig arni.

Go lew ti Briallt! Dal ati gyda'r gwaith gwych o hyrwyddo'r hyn sy'n ail natur i ti. - Gol.

Cofio Ymweliad Arbennig

Mae'n chwarter canrif ers i gyn-arlywydd America – Jimmy Carter ymweld â Thafarn y Ram, Cwmann tra ar ei wyliau yn Llanio.

James Earl "Jimmy" Carter Jr oedd 39ain Arlywydd yr Unol Daleithiau rhwng 1977 a 1981 ac enillodd Wobr Heddwch Nobel am ei waith dros hawliau dynol yn 2002.

Ond ar Awst y 10fed 1995 y cafodd brofiad cofiadwy o ymweld â chynesrwydd tafarn cartrefol adnabyddus Y Ram yng Nghwmann.

Wynne a Mary Davies oedd y tafarnwyr ar y pryd, ac mae ganddynt atgofion byw o'r ymweliad arbennig.

"Roedd y bodyguards wedi bod gyda ni rai wythnosau cyn hynny, gan ofyn i ni gadw'r ymweliad yn gyfrinachol," meddai Wynne "a nhw oedd yn talu ar ran y cyn-arlywydd ar y diwedd."

"Roedden nhw fod gyda ni am un o'r gloch a chyrhaeddodd y ddau gyda dau o'u hŵyrion a'u entourage tua ugain munud wedi, ac arhoson nhw tan ryw hanner awr wedi pedwar." esboniodd Wynne.

Ymfalchïa Mary ei bod wedi bwydo cyn-arlywydd "Ond dim ond toasties oedden nhw moyn." ychwanegodd.

"Hanner o shandy yfodd Mr Carter," dywedodd Wynne a oedd tu ôl y bar, "ond roedd y bodyguards yn yfed peints o seidr."

"Mynnodd Mr Carter fynd am wac rownd y dafarn, a roedd yn dangos diddordeb ym mhopeth fel y cwt cadno oedd yn hongian wrth y bar." ychwanegodd Wynne.

Ar y pryd roedd Jimmy Carter, ei wraig Rosalynn a'u hŵyrion yn aros gyda Peter Bourne yn ei gartref yn Llanio. Arferai Peter fod yn Asiant Arbennig i'r Arlywydd yn y Tŷ Gwyn, ac ef a ysgrifennodd lyfr swmpus am Jimmy Carter.

"Ron nhw'n bobl neis iawn, dim byd rhy urddasol." mynegodd Wynne ac yn ogystal â lluniau ac atgofion mae gan Wynne a Mary lythyr a ddanfonodd Jimmy Carter atyn nhw, o Lanio i ddiolch am y croeso. Llythyr i'w drysori.

"We have never seen a more beautiful country than Wales," oedd yr hyn a ddywedodd Jimmy Carter wrth Moc Morgan yn ystod yr un cyfnod o wyliau yng Nghymru. "And never have we seen people more friendly or hospitable than the Welsh who have welcomed us here."

Roedd Wynne a Mary yn rhedeg y Ram rhwng 1989 a 2003 ac enillwyd gwobr CAMRA am y Dafarn orau yng Nghymru yn 1997 yn ogystal â bod yn bedwerydd drwy Wledydd Prydain.

Mae Wynne a Mary wedi gwerthu'r Ram ers sawl blwyddyn bellach ac wedi ymddeol erbyn hyn i fyw yn Llanbed. Mae Jimmy Carter yn 96 oed ac yn byw yn Plains, Georgia. Fe yw'r cyn-arlywydd hynaf byw ac mae'n parhau i ryddhau datganiadau am bynciau gwleidyddol. Ond mae Tafarn y Ram yn wag yn anffodus, a'r drysau wedi cau ers pymtheg blynedd.

Addasu er mwyn goroesi

Hanes Teulu Elin Jones, Cae'r Nant, Cwmann

"Golchwch eich dwylo, dyna'i gyd, …… er mwyn popeth golchwch eich dwylo!" Dyna odd y neges wrth Boris a dyna oedd fy neges innau hefyd! Y sialens gyntaf. Dysgu'r plantos bach i olchi dwylo gan ganu 'Penblwydd Hapus'! Pwy wyddai bryd hynny bwysigrwydd y canllaw (– a oedd ar y pryd yn swnio'n go hyrt!)

Roedd gwrando ar y newyddion yn datblygu yn ddefod ddyddiol, ac roedd yr arswyd o'r anhysbys yn fy ngyrru i wneud yn siwr bod fy nheulu bach i nôl yn y nyth yn saff! Roedd cael Sara a Cari adre o Gaerdydd yn un peth llai i feddwl amdano. Roedd y byd yn brysur newid, a finnau fel pawb arall yn colli ychydig o afael ar y pethau o'm cwmpas.

Yn y dyddiau cynnar hynny yn hanes COVID19, roedd yr ofn o un ohonom ni yn lledaenu yr haint yn ddiarwybod i ni, bron iawn yn waeth na'r ofn o gael yr haint! Ac am yr wythnosau cyntaf hynny cyn y cyfnod clo, adre, yn y tŷ fu'r merched rhag iddynt yn ddiarwybod fod yn cario'r haint o'r ddinas fawr i Gwmann.

Yn y cyfnod cynnar yma hefyd, er iddo deimlo fel ein bod yng nghanol trowynt, roedd y ffocws yn ddigon clir. Paratoi am gyfnod newydd, cyfnod digyswllt, cyfnod anodd a hir.

Mam yn mynd i wneud ei gwallt am y tro ola am bach, … datganiad am ysgolion yn cau, …Mared a finne yn gadael yr ysgol heb wybod am ba mor hir….. ac yna 'lockdown'. Cyfnod clo. Wel, dyma emosiwn! Be sy mynd i ddigwydd nesa? Be sydd o'n blaen ni? Pryd ma hyn yn mynd i ddod i ben? Ac i bawb yn ein tŷ ni, yr hunllef o feddwl am gyfnod digyswllt wrth un llinyn o'n teulu, sef Lowri a'i theulu bach, dyna oedd anoddaf. Gan bod Lowri yn feichiog, ac felly yn fwy bregus, y peth callaf a'r mwya' diogel oedd ceisio ei hamddiffyn cymaint â phosib. Ond y frwydr pennaf i ni oedd y diffyg cwtsho â Osian bach, ac yntau ond yn ddwy a hanner oed. Bu ef ddim yn hir cyn deall y drefn, a dod i'r patrwm bod wâc fach mas o'r tŷ i ni yn anochel, ac yn ein harwain i'r rhewl tu ôl eu cartref,…. i ochr draw y clawdd, er mwyn cael un pip fach, un cwtsh heb dwtsh, un gwrandawiad ar y 'brwwwm' wrth iddo fynd ar ei feic, a'r waedd 'tra, tra, tra…tra' yn adleisio wrth i ni wneud ein ffordd yn ôl yn benisel am adre. Mae'r wac fach 'ma wedi dod yn rhan o batrwm ein teulu ni nawr, yn ddefod, er mwyn hefyd cael gweiddi helo wrth Mam a'm rhieni yng nghyfraith o du allan i'r gât.

Roedd y cyfnod a ddaeth yn syth ar ôl datganiad y cyfnod clo yn gyfnod ansicr i ni gyd. Y merched yn gweld eisiau ffrindiau, cariadon, a'r rhyddid i fynd allan. Daeth siom i blith pob yr un ohonom yn ein tro, am bethau oedd wedi eu trefnu, prawf gyrru, nosweithiau allan, dathliadau penblwydd, teithiau i Alacante, i sgio ac i Nice. Ond… erbyn hyn, cytunwn nad oeddent yn bwysig. Yn eu lle, daeth cyfnod mwy hamddenol, ymarfer corff (efallai dim cymaint i mi!), peintio, garddio, cwisiau ffrindiau, dathliadau ar lein, cyfarfodydd Teams a chlapio i staff GIG. Daeth gyda hyn heriau newydd, arholiadau, gwaith a seminarau ar lein, pawb yn gweithio o adre – a'r wê yn peri yn fwy o sialens nag erioed!

Daeth cymaint o benbleth i fywyd, gyda theimladau cymysg am y bywyd newydd yma. Kevin yn brysur yn ei waith yn paratoi y ffordd ymlaen i fedru cadw'r fusnes i fynd a chadw ffermwyr a busnesau lleol i fedru parhau gyda'i swyddi hanfodol. Trefnu arwyddion a gweithdrefnau gwahanol i sicrhau y pellter 2 fetr i amddiffyn staff a chwsmeriaid.

Finnau wedyn yn wynebu'r pryder o fynd i weithio – mewn ysgol, ond nid i ddysgu. Mewn ysgol, ond heb lawer o blant. Mewn ysgol, lle mae popeth wedi newid.

Roedd y diwrnodau yn hir i ddechrau, a phatrwm diwrnod wedi newid. Roedd hi yn her i adael y tŷ! Yn gymysgwch o deimladau; gofid, gwacter a gorbryder. Hiraeth am y dysgu arferol a dosbarthiadau llawn. Dyhead am y bwrlwm a fu. Roedd bywyd ysgol wedi newid a dim y gallwn wneud am hynny, dim ond camu ymlaen i'r sialens diweddara'. Braint yw medru fod yno i ofalu am blant y gweithwyr allweddol. A phleser o'r mwya yw gwbod fy mod i wedi bod yn rhan o'r gadwyn i sicrhau bod y gweithwyr allweddol wedi medru parhau yn y rhes flaen.

Wrth i reolau ddechrau addasu, a normal newydd yn datblygu, camwn ymlaen yn awyddus at y cyfle i fedru cwrdd yr yr ardd gyda'n teulu, camwn ymlaen yn ansicr i'r profiadau siopa trawsnewidiol, - ciwio ar y strydodd, mygydau, menig a chadw metrau arwahan.

Mae yna eto gyfnod newydd o'n blaen ni yn ddiame. A llawer o gwestiynau yn dod i'r meddwl.

Pa bethau newydd sydd o'n blaen ni eto? Pa effaith y geith hyn ar ein bywyd bob dydd ni yn y pen draw? Be' bydden ni wedi neud heb dechnoleg? (a'r heriau a daw gydag e!) Pa ymddygiad cyhoeddus fydd yn dderbyniol yn y dyfodol ansicr? Pryd bydd medru cyffwrdd a'r wyneb yn teimlo'n beth naturiol eto? Neu medru beswch a chlirio'r gwddwg heb ofni pwy sy yn clywed? Pryd fyddaf yn gallu derbyn symptomau clefyd y gwair heb boeni ei fod yn rhywbeth mwy? Pryd y bydd yn saff i ni fod yn NI eto? Ond yn bwysicach na dim…. Pryd y gallwn roi cwtsh i'n hanwyliaid? Dyna pan fyddwn yn gwybod bod hyn wedi bod werth e.

Dyna pan fydd y rhestr ddi-ddiwedd yn dod allan. Y rhestr sydd yng nghefn meddwl pob yr un ohonom ni yn ein tŷ ni ac yn eich cartrefi chi i gyd rwy'n siwr. Y rhestr o'r holl bethau y byddwn yn eu gwneud…..'pan fydd hyn i gyd drosodd!'

Hanes Teulu Hannah James, Mark Lane

Rydym ni fel teulu ym Mhopty Mark Lane wedi gorfod addasu yn ystod pandemig COVID-19. Am y tro cyntaf roedd rhaid i ni gau drysau'r caffi ar ddiwedd mis Mawrth oherwydd gofynion y Llywodraeth. Ond, mae'r siop wedi aros ar agor dros y cyfnod ansicr yma.

Mae'r siop ar agor Dydd Llun i Ddydd Sadwrn 8.30-3.00 ac yn gwerthu bara a rolls ffres, cacennau, brechdanau a phrydiau twym yn ddyddiol.

Er mwyn gwneud y siop yn ddiogel i ni ac ein cwsmeriaid, rydym wedi gorfod symud dodrefn er mwyn sicrhau'r pellter 2 metr. Mae gennym ni reol bod un person yn dod mewn i'r siop ar y tro ac os bod angen aros am fwyd poeth mae yna fan aros yn y caffi sydd hefyd yn cadw at y pellter 2 fetr.

Wrth fod yn fusnes teulu, rydw i a fy mrawd ac un aelod o'r staff yn gweithio'n y siop rhan fwyaf o'r wythnos gyda fy nhad fel y pobydd, fy modryb yn coginio a mamgu a tadcu yn dal i help tu ôl i'r llenni. Er mwyn cadw mamgu a tadcu yn ddiogel, maent yn cadw i ffwrdd o'r siop ac yn helpu gydag archebion

Addasu er mwyn goroesi

yn y popty.

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth dosbarthu o gwmpas ardal tref Llanbedr Pont Steffan. Gan fod nifer yn yr ardal yn hunan-ynysu, rydym ar gael i gludo bara neu phryd poeth os bod angen.

Rydym fel teulu yn gwerthfawrogi ac yn ddiolchgar am y gefnogaeth gan ein cwsmeriaid dros y cyfnod ansicr yma. Am y tro, byddwn yn parhau fel siop a chynnig gwasanaeth dosbarthu tan fydd hi'n ddiogel i agor fel caffi eto.

Profiadau defnyddio 'Zoom' gan Ann Bowen Morgan

Pwy fydde'n meddwl dri neu bedwar mis yn ôl y bydde'n bywydau bob dydd yn troi o amgylch rhaglenni fel Zoom a Teams ac eraill! Doeddwn i erioed wedi ystyried y byddwn yn dysgu ar y We nac yn cynnal cyfarfodydd ychwaith.

Pan ddechreuwyd y cyfnod clo nôl ym mis Mawrth a'n dosbarthiadau dysgu Cymraeg yn cau i lawr yn y canolfannau- dyna ni Amen meddyliais! Byddai'n bosib anfon e-bost ac ambell lun ar y sgrin ond na daeth defnydd o Zoom! Roedd yn antur mawr i ddechrau ac i amatur fel fi yn gyffrous iawn. Roedd gweld lluniau aelodau'r dosbarthiadau o fy mlaen yn fendigedig a phawb yn hapus iawn. (Er ddim cystal â dysgu wyneb yn wyneb). Daethpwyd i ben â rheoli pwy oedd yn siarad, trafod ac addysgu a llawer iawn o chwerthin!. Erbyn hyn gyda 'ystafelloedd rhannu' maent yn gallu siarad gyda grŵp neu bartner. Rhaid cyfaddef nad oeddwn yn dda iawn ar y dechrau ond erbyn hyn mae reolaeth gwell gennyf. Diolch i Gwyneth a Gareth am lawer o gymorth i osod lan a staff Aberystwyth.

Cafwyd sawl sesiwn o Siop Siarad am yn ail ddydd Iau am 2 o'r gloch ac er nad yw cystal â mynd i'r Hedyn Mwstard a chael paned a chacen, mae amrywiaeth o aelodau hen a newydd wedi ymuno a diolch i'r Cymry Cymraeg am eu cymorth. Byddwn yn parhau ar ail ddydd Iau y mis ac os oes diddordeb gyda chi ymuno cysylltwch a fi ar ann.bowen.morgan@hotmail.co.uk i dderbyn y cyswllt. Bydd y nesaf ar 9fed o Fehefin am 2 o'r gloch. Ceir llawer o sgwrsio difyr a chyfle i'r dysgwyr ymarfer eu Cymraeg.

Gwersi piano - Dyma brofiad diddorol diweddar a'r disgyblion yn cael dal ati gyda chyfarwyddyd. Rydym hefyd yn cael defnyddio dau biano er yr amseru yn reit rwystredig (y time lag) ond gellir dangos ambell adran neu fariau yn llwyddiannus. Mae'r signal o Lanllwni a chyffuniau yn gallu bod yn doji ond eto yn well na dim a'r disgyblion yn dod yn eu blaenau am gyfnod tan i ni gwrdd eto.

Rydym wedi cael llwyddiant ar youtube gyda oedfaon a myfyrdodau o'n hamrywiol gapeli yng nghylch Bedyddwyr Gogledd Teifi a phawb wedi cael budd mawr. Diolch i Delyth Phillips am roi'r oedfaon ar y we ac i amrywiol aelodau am gymryd rhan.

Ddydd Sul diwethaf mentrwyd ar oedfa ar Zoom ac er gwaethaf ambell gamgymeriad ar fy ran fel colli clywed un aelod oedd i fod i weddio, cafwyd llwyddiant a bendith gyda'n gilydd. Roedd aelodau o gapeli eraill yno hefyd a chroeso mawr iddynt. Gadewch i fi wybod os oes diddordeb ymuno.

I orffen, braf wrth gwrs gweld teulu a ffrindiau ar Zoom a facetime ond edrychwn ymlaen i'w gweld wyneb yn wyneb, rydym yn eu colli yn fawr. Cadwch yn ddiogel a daliwch i zwmio!

Hanes Sara Thomas a busnes T. L. Thomas, Llanllwni

Helo, fy enw i yw Sara Thomas, a dyma sut mae fy mywyd i wedi newid yn ystod yr adeg ansicr yma.

Rwy'n gweithio yn y ddwy fusnes deuluol yng nghanol pentref Llanllwni sef siop gwerthu adnoddau adeiladu- T. L. Thomas & Son a'r felin lifo- Teifi Timber Products Ltd. Fel yr ydych yn gwybod, mae 2020 hyd yn hyn wedi bod yn flwyddyn heriol dros ben i bawb a phwy feddyliau y byddem wedi gorfod newid ein ffordd o fyw mor ddisymwyth. Yn ogystal ag arnom ni fel unigolion, mae sefyllfa'r coronafeirws wedi cael effaith ar bob busnes yn yr ardal.

Fel cwmni teuluol, y peth mwyaf synhwyrol oeddem yn teimlo y gallwn ei wneud er mwyn lleihau lledaenu'r feirws a sicrhau iechyd a diogelwch ein staff a'n cwsmeriaid oedd i gau'r drysau. Bu'r ddwy fusnes ynghau o ddiwedd mis Mawrth nes ddiwedd mis Ebrill. Dyma'r tro cyntaf yn ein hanes y bu rhaid i ni gau ein drysau. Erbyn hyn rydym wedi ail-agor ond wedi gorfod addasu tipyn o'n hymarferion gweithio i gydfynd gyda chanllawiau'r Llywodraeth.

Ar hyn o bryd does neb yn cael dod mewn i'r siop na'r iard os nag oes gyda nhw slot i gasglu eu nwyddau. Rydym yn cymryd yr holl archebion dros y ffôn, ebost neu dros neges Facebook. Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn dipyn o help i ni yn ystod yr adeg yma er mwyn sicrhau ein bod yn gallu hysbysebu ein nwyddau gan fod neb yn gallu eu gweld ac hefyd i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn gallu cysylltu mewn modd hawdd ac effeithlon.

Yn ystod y cyfnod clo rydym wedi bod yn brysur yn gwerthu tipyn o nwyddau i bobl sydd wedi bod adref o'u gwaith. Mae llawer iawn o bobl wedi bod yn cwblhau tasgau yn eu tai a'u gerddi. Mae yna brinder cenedlaethol am nifer o adnoddau adnewyddu erbyn hyn megis 'Multifinish', 'Plasterboard', Compost' a phaent i beintio tai a ffensys - yn enwedig mewn lliw llwyd, gan bod pawb wedi penderfynu y ddylai popeth fod yn llwyd yn eu cartrefi a'u gerddi eleni.

Mae Teifi Timber Products yn cynhyrchu coed ar gyfer cwmnioedd ar draws y Deyrnas Unedig, yn ystod y mis diwethaf mae'r galw wedi cynyddu dipyn am ein cynnyrch ac erbyn hyn mae'r llywodraeth yn Llundain wedi cyhoeddi bod nwyddau coed megis 'Decking', 'Sleepers', 'Postion ffensio' a 'Feather Edge' ar y lefel prinnaf erioed. Oherwydd yr holl alw sydd ar melinnau llifo ar draws y DU, mae hefyd yna brinder mawr o'r nwydd crau sef coed o'r coedwigoedd, o ganlyniad i hyn mae prisau'r coed yn cynyddu o hyd.

Erbyn hyn mae Mark Drakeford Prif Weinidog Cymru wedi cyhoeddi bod hawl gan bob siop i ail-agor ond eu bod yn medru sicrhau ymbellhau cymdeithasol. Serch hyn, yr ydym ni fel cwmni yn mynd i barhau gyda'n system o dderbyn archebion dros y ffôn a'r wê am nawr. Wrth i'r wythnosau fynd ymlaen byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn llacio ein cyfyngiadau fel y gwelwn yn ddiogel.

Yn ogystal ag yn y gweithle mae tipyn hefyd wedi newid yn fy mywyd personol yn ystod y cyfnod clo. Fel ysgrifenyddes Clwb Llanllwni roeddwn yn edrych ymlaen i stiwardio Rali'r Sir eleni ym mis Mai. Roeddwn hefyd wrthi yn paratoi rhaglen ein Sioe flynyddol, sydd bellach wedi ei ganslo am eleni, ond ein bwriad yw i gynnal sioe ddigidol er mwyn cadw'r gymuned yn glos. Rydym hefyd fel clwb wedi bod yn ceisio

Addasu er mwyn goroesi

cadw diddordeb ein haelodau wrth gynnal Cwis a Bingo dros Zoom, mae sawl un o'n haelodau wedi bod yn helpu gyda chymwynasau yn y gymuned, ac mae ambell un ohonom wedi creu fideo ar gyfer tudalen Facebook CFfI Sir Gâr.

Roeddwn hefyd yn edrych ymlaen i gwrdd ag aelod newydd y teulu- Glesni sef merch fach Siôn fy nghefnder. Yn ogystal, roedd Siôn ac Alys i fod priodi ym mis Medi ond mae hwythau wedi gorfod gohirio eu trefniadau am flwyddyn. Cynllun arall oedd gen i a Ieus fy mhartner oedd i fynd i deithio Asia, Awstralia a Seland Newydd o fis Hydref ymlaen, ond rydym ni hefyd wedi gorfod gohirio ein trefniadau...am faint? Wel, pwy â wyr?

Mae'r coronafeirws yn parhau i gael effaith rhyfedd iawn ar ein bywydau, teuluoedd a chymunedau, ac yn bendant fydd yna effeithiau hir-dymor ar y ffordd y byddwn yn gorfod addasu i fyw yn y dyfodol. Gobeithiaf yn fawr y byddwn i gyd yn gallu goroesi'r feirws yma a gobeithio eich gweld chi gyd yn fuan. Cadwch yn Saff.

Hanes Teulu Gwarffynnon, Silian

Mae'r cyfnod diweddar wedi dod â'i sialensau i Gwarffynnon. Y mwyaf yw pris y llaeth. Wrth i'r sector arlwyo gau dros nos, diflannodd canran fawr o'r farchnad laeth ac o ganlyniad disgynodd pris y llaeth. Mae'n anghredadwy bod ffermwyr yn gorfod taflu llaeth tra bod archfarchnadoedd heb gyflenwad digonol o laeth ar eu silffoedd ers misoedd. Wrth lwc, mae'r tancr llaeth wedi cyrraedd Gwarffynnon bob bore.

Er ein bod yn colli cymdeithasu wyneb yn wyneb, mae Cyswllt Ffermio wedi cynnal gweminarau am feysydd gwahanol mewn amaeth sydd wedi bod yn addysgiadol a diddorol iawn. Roedd mynd i'r mart yn achlysur cymdeithasol pwysig i ni, cael sgwrs a chlonc gyda hwn a'r llall. Ond, mae cyfyngiadau Covid-19 wedi golygu mynd a gadael yr anifeiliaid yn y mart, a byw mewn gobaith y cawn bris teg.

Wrth gwrs, does dim twrisiaid wedi bod i'r bythynnod, a hynny dros gyfnod prysur o'r flwyddyn. Fel arfer, mae'n hyfryd croesawu twristiaid i'r fferm ac i'r ardal, ac mae'n ddefod bleserus cael addysgu'r unigolion am y broses o gynhyrchu bwyd ac am draddodiadau Cymreig a'r iaith Gymraeg. Ond nid dyma'r drefn eleni. Erbyn hyn, rydym wedi cael gwybod y bydd y diwydiant twristiaid yn cael ail-ddechrau. Er ein bod eisiau mynd nôl i normalrwydd, nid yw'r penderfyniad heb ei ofid. Bydd rhaid gosod rheolau llym o ran ble gallant grwydro a pha gyfleusterau cânt ddefnyddio.

O'm rhan i, **Gwen**, dw i wedi bod yn gweithio o gartre ers canol Mawrth. Mae'n gofyn am ddisgyblaeth personol, ac mae pawb yn deall erbyn hyn, unwaith fy mod yn y swyddfa, dw i ddim ar gael tan ddiwedd y dydd. Rwy'n gweithio i Ragoriaith ac rydym wedi newid o addysgu wyneb yn wyneb i addysgu ar lein.

Dw i wedi gorfod hunan-hyfforddi ar feddalwedd a phlatfformau anghyfarwydd mewn byr o dro. Dyw hyn heb fod yn hawdd gyda chysylltiad gwael y rhyngrwyd. Mae wedi golygu gorfod codi canol nos i uwchlwytho adnoddau i sicrhau eu bod yn cyrraedd pen y daith mewn pryd! Yn bendant, mae'r cyfnod wedi amlygu ein bod mor ddibynnol ar y rhyngrwyd wrth i nifer helaeth weithio o adre.

Actor ydw i, **Elliw**, ac mae pob swydd oedd gen i rhwng Mawrth a Hydref i wedi'u ohirio a bellach wedi'u canslo. Ond, does dim pwynt i mi deimlo trueni dros fy hun, dwi'n cyfri fy mhendithion! Dwi wedi bod yn llenwi fy amser drwy gynorthwyo pobl sy'n hunan-ynysu am resymau gwahanol. O gasglu meddyginiaeth, gwneud siopa wythnosol a chael sgwrs i gadw cwmni dros y ffôn ac mae hynny'n llawn cymaint o gwmni i minnau yn ogystal â'r person ben arall y lein. Ers diwedd Mawrth mae Ffermwyr Ifanc Ceredigion wedi bod yn cynnig gwasanaeth i aelodau mwyaf bregus ein cymuned. Mae'r Mudiad wedi bod yn cydweithio gyda nifer o elusennau a hefyd Cyngor Ceredigion, felly dwi wedi cael ceisiadau amrywiol iawn!

Nid ydym wedi gweld Hedydd ers bron i 4 mis. Edrychwn ymlaen i'w gweld eto pan bydd y rheolau'n caniatáu.

Dafydd Lewis a bunses W. D. Lewis a'i fab, Llanbed

Mae wedi bod yn gyfnod ansicr i bawb yn y misoedd diwethaf, ac i ni yn W. D. Lewis a'i fab, daeth cyfnod y Clo Mawr ar adeg fwyaf prysur y flwyddyn, felly roedd rhaid gwneud penderfyniadau busnes anodd.

Gyda'r newyddion bod rhaid i siopau gau ac i bobl weithio o'r cartref, roedd dyletswydd arnon ni i barhau i gyflenwi bwydydd anifeiliaid a gwrtaith. Roedd hyn yn rhoi ein staff ni o dan bwysau ac yn gallu achosi gwrthdaro o fewn y cartref.

Ond galla i ond canmol y staff gweithgar sydd gyda ni a diolch i'r teuluoedd a'r cwsmeriaid am eu cefnogaeth. A thrwy'r cwbl, pwy sydd wedi gweithio'n ddiflino gan arwain y ffordd pob dydd o 7.30 y bore tan 5 y prynhawn yw dad, ac yntau mewn oedran i roi ei draed lan!

Bwrodd y feirws hyn ar adeg pan rydym yn gwerthu llawer iawn o gec defaid a mewn cyfnod pan mae angen cyflenwi gwrtaith ar gyfer y tir, felly cynyddu oedd y pwysau gwaith beth bynnag, ac roedd ymdopi â gofynion yr haint yn ychwanegol.

Wrth ddelio â'r cyhoedd, mae risg ein bod yn dod ar draws pobl yn cario'r feirws anweledig yma, ac ar y dechrau nôl ym mis Mawrth doedd neb yn gwybod beth oedd y peth gorau i wneud. Wrth barhau i weithio felly, gallem beryglu iechyd aelodau'r teulu sy'n fregus neu'n hŷn.

Roedd yn anorfod ein bod yn cau'r ddwy siop i gwsmeriaid, a gyda chymorth Williams & Thomas gosodwyd cownter yn nrws cefn siop Llanbed a threfniadau tebyg ym Mhumsaint. Roedd hyn yn diogelu staff swyddfa. Penderfynwyd peidio trin arian parod a gofyn i gwsmeriaid i dalu gyda cherdyn neu ar gyfrif yn unig. Darperir hylif glanhau dwylo i staff a chwsmeriaid a menig i staff pe dymunir.

Wrth gasglu bwydydd anifeiliaid o'r storfa, gofynnir i gwsmeriaid i agor eu cerbyd a gadael y staff i lwytho. Gosodwyd posteri yn gofyn i bawb gadw pellter o ddau fedr hefyd ac mae hynny wedi gweithio'n eithaf da er mwyn diogelu staff y storfa a chwsmeriaid.

Erbyn hyn, rydym wedi ail agor y ddwy siop gyda system un ffordd, arwyddion niferus a sgrîn blastig wrth y cownter gan ddechrau ymgyfarwyddo â'r normalrwydd newydd.

Rydym yn ffodus bod ein busnes wedi ei leoli mewn ardal wledig lle nad yw'r feirws wedi taro'n galed hyd yn hyn, felly rydym yn falch ein bod wedi gallu parhau i wasanaethu amaethwyr yr ardal sy'n gweithio'n galed i fwydo'r genedl.

Anrhydeddu Arlunydd

Yn ystod mis Mehefin, dathlodd yr arlunydd Aerwen Griffith, Llanfair Clydogau ei phen-blwydd yn 80 oed. Dyma bedwar hoff ddarlun ganddi:

Ystrad Fflur. Mae'n agos iawn at fy nghalon gan fod teulu fy nhad wedi eu geni a'u magu o gylch y lle hanesyddol ac unigryw yma.

'Yr Hen Felin,' Heol Llanfair. Ger y lle yma y tyfais i fyny, a threuliais fy mhlentyndod yn chwarae o'i hamgylch.

Y Lon Goed, Longwood, lle rwyf yn hoffi cerdded.

Cors Caron. Lle arall lle rwyf yn hoffi cerdded a lle ‘roedd fy nhad yn torri mawn pan oedd adref ar y fferm.

Nôl yn 2005, ysgrifennodd Twynog Davies bortread o Aerwen fel rhan o’i golofn ‘Cymeriadau Bro’. Dyma ddetholiad ohono:

Byddwn yn rhyfeddu’n aml at ddawn ein harlunwyr cyfoes yng Nghymru gyda’r gallu i greu darluniau byw o gymeriadau, tirlun, pentref neu gartref. Mae Aerwen Griffiths yn brysur ennill enw da fel artist o fri, ac wrth gwrs, mae’n byw yn ein plith ni yn ardal Llambed. Ond beth am ei chefndir?

Symudodd ei rhieni o Lundain i ardal y Bont yn ystod yr Ail Ryfel byd, ac mewn llecyn bach ger Rhosgellifron y ganwyd Aerwen. Pan yn dair oed, symudodd ei theulu i fferm y Pandy yn Llanfair Clydogau, a bu hyn yn drobwynt pwysig yn ei bywyd, gan iddi ddod o dan ddylanwad y diweddar Miss Eiddwen James tra yn yr ysgol yn Llanfair. Bu Eiddwen yn athrawes arni o 4 i 11oed, yn wir, yr unig athrawes yn yr ysgol. Llwyddodd i ddylanwadu cenhedlaeth o blant i werthfawrogi barddoniaeth, llenyddiaeth, cerdd a’r celfyddydau. Roedd Eiddwen James, heb os, yn athrawes ‘o flaen ei hamser’, ac yn dysgu’r plant i werthfawrogi’r amgylchfyd a byd natur o’u cwmpas.

Mwynhad pur oedd ei chyfnod wedyn yn Ysgol Gyfun Llambed, a dylanwad llawer o’r athrawon yn fawr arni, yn enwedig Sally Davies yn yr Adran Gymraeg. Ar ôl gadael yr ysgol, aeth ymlaen i Goleg CG Mott yn Lerpwl i astudio celf a cherdd. Ar ôl gadael y coleg, penodwyd hi i’w swydd gyntaf yn Ysgol Dihewyd, ond yn y dyddiau hynny nid oedd bywyd yng Ngheredigion ddigon rhamantus i ferch ifanc, a dyma geisio am swydd, a’i chael mewn ysgol gynradd yn Leamington Spa - ardal gwbl wahanol i’w chynefin yng Ngheredigion.

Yn ystod y cyfnod yma, cyfarfu a’i phriod Dan, mewn Capel Cymraeg yn Coventry. Brodor o Ddowlais oedd Dan ac yntau yn athro Ymarfer Corff yn Nuneaton. Ar ôl priodi yn 1966, ganwyd iddynt ddau o blant, Aled a Sian, ac erbyn hyn, mae yna bedwar o wyrion a’r pumed ar y ffordd! Mae Sian a Aled yn dilyn diddordeb eu mam mewn cynllunio argraffic a thecstilau, ac mae gan Aled ei fusnes ei hun.

Tra yn magu’r plant, rhoddodd Aerwen y gorau i ddysgu ond ar ôl cyfnod, ail gydio yn y gwaith, a bu’n dysgu Celf mewn ysgol ganol yn Leamington Spa (plant 8-13) am ddeunaw mlynedd. Yn ystod y cyfnod yma ymunodd â Chôr Dewi Sant yn Coventry, a’r Warwick Operatic Society.

Ar ôl blynyddoedd o ddysgu a gweld y gwaith yn mynd yn fwy anodd, dyma benderfynu ymddeol yn gynnar 1995, a dod yn ôl at ei gwreiddiau. Adeiladwyd eu cartref presennol, yn yr hen ardd, yn y Pandy. Bu ymddeoliad Aerwen yn symbyliad iddi ddatblygu ymhellach ei diddordeb mewn paentio. Caiff ysbrydoliaeth ryfeddol wrth ail ddarganfod ei chariad at ei chynefin, tirluniau Ceredigion a barddoniaeth Gymraeg. Mae’n ymgeisio bob amser i gyfleu emosiwn personol yn y pethau cyfarwydd trwy or bwysleisio elfennau ffurf a lliw, a thrwy hunanfynegiant. I greu’r darluniau, rhaid defnyddio amrywiaeth o baent, pasteli, papur, pensil a.y.b. er mwyn creu y gweadau perthnasol.

Wedi dychwelyd i’r fro, mae wedi creu nifer fawr o ddarluniau sy’n cynnwys rhosys, lluniau llonydd ar y Teifi, Neuadd y Dref Llambed, Llanddewi Brefi ar gynfas, hen adeiladau ffermydd a nifer o luniau o Dowlais Top – cartref ei phriod. Mae wedi cael tair arddangosfa ei hun yn Theatr y Mwldan Aberteifi, Oriel y Llys yn Llambed, ac yn Oriel Emrys yn Hwlffordd. Hefyd bu’n arddangos yn Oriel Davies, Y Drenewydd ac yn Celf Cambrian yn Nhregaron, ac yn dilyn hyn mae llawer o’i lluniau wedi’u gwerthu. Derbyniodd hefyd sawl cais am waith comisiwn gan unigolion. Un o’r trysorau yn ein tŷ ni yw llun gan Aerwen o’m hen gartref yn Nyffryn Tywi, a llwyddodd yn eithriadol i gyfleu darlun byw o’r cartref a’r adeiladau yn ystod cyfnod fy mhlentyndod. Ni fedraf roi pris ar werth y llun yma i mi.

Mae Aerwen yn gefnogol iawn i sawl mudiad yn y dref, ac mae’n Gyn-lywydd Merched y Wawr. Er y pellter i Leamington Spa, mae’n edrych ar ôl yr wyron yn rheolaidd, ac mae hyn yn rhoi cryn bleser iddi er yn waith caled! Mae Aerwen a Dan wedi ymdoddi i’r gymdeithas ar ôl dod yn ôl i’w cynefin, ac mae’r ddau ohonynt drwy aml weithgareddau yn brysur tu hwnt.

Er ei phrysurdeb, mae Aerwen yn gobeithio parhau i ganolbwyntio ar greu mwy o ddarluniau eto ar destunau sy’n apelio ati, o fewn ei chynefin. Mae’n sylweddoli fod yna gyfoeth mawr yn perthyn i fro ei mebyd a thu allan, sy’n rhoi her arbennig i unrhyw arlunydd. Edrychwn ymlaen yn eiddgar am fwy o’i chynnyrch.

Pantyfedwen ar y Brig

gan Twynog Davies

Do, fe wnaeth y genedl Gymreig bleidleisio ar y rhaglen Dechrau Canu, Dechrau Canmol yn ddiweddar mai Pantyfedwen yw yr emyn dôn mwyaf poblogaidd. I bawb ohonoch sydd â chysylltiad gyda'r Eisteddfod yma yn Llanbed, mae hyn yn lawenydd pur ond i mi efallai mae'r dôn yn golygu ychydig mwy oherwydd y cysylltiadau a gefais gyda'r awdur Morris Eddie Evans yn ôl yn yr wythdegau cynnar. Dyma'r cefndir yn frâs.

Cefais y fraint a'r anrhyededd o sefydlu ac arwain Côr Cymysg Penparc a'r Cylch ger Aberteifi am gyfnod o bymtheg mlynedd rhwng 1972 – 1987. Tua diwedd 1979, derbynwiyd gwahoddiad oddi wrth Radio Cymru yn gofyn a fyddem yn ystyried gwneud rhaglen at Ganiadaeth y Cysegr o emyn donau Eddie Evans. Dyma fynd ati gydag egni a brwdfrydedd a mwynhau y profiad yn fawr. Trueni yn wir mae

Pantyfedwen yw'r unig un o donau Eddie Evans a genir yn rheolaidd oherwydd mae ganddo nifer o donau cynulleidfaol caniadwy a chyfoethog yn cynnwys Nant Peris, Glanystwyth, Maesglas a Llangernyw a hon oedd yn fuddugol yn Eisteddfd Machynlleth yn 1937.

Darlledwyd y rhaglen gan y Côr ar y Sul, Mai 5ed 1980 gyda'r Parch Gorowny Evans yn cyflwyno yr emynau. Aeth wythnos heibio ond yn sydyn dyma lythyr yn cyrraedd oddi wrth Eddie Evans yn cyfleu yn wylaidd iawn ei ganmoliaeth a'i werthfawrogiad o'r rhaglen ac am waith y côr. Bu hyn yn gyfnod o lythyru rhwng y ddau ohonom am gyfnod o tua phedair blynedd ac y mae'r pump llythyr sydd gennyf wedi eu hysgrifennu mewn llawysgrifen daclus a Chymraeg gloyw yn drysor gennyf erbyn hyn. Nid yn unig bu yna lythyru cyson ond hefyd cafwyd sawl sgwrs ar y ffôn. Cofiaf yn dda y bore pan gododd y ffôn i ddweud fod ei briod Gwyneth wedi marw. Er na chefais y fraint o'i gyfarfod yn y cnawd, teimlais fod yna gysylltiad agos wedi datblygu rhyngddom ac rwy'n gwybod faint oedd y 'cassette' o'i emyn donau yn golygu iddo. Cymerodd ddiddordeb hefyd yng ngôr Plant yr Urdd ar ôl iddynt ymddangos ar raglen prynhawn Sul Caniadaeth y Cysegr – yn wir dyma'r unig raglen Gymraeg oedd yn medru dderbyn o'i gartref yn Oldham ar y pryd.

Ganwyd Eddie Evans yn Cloth Hall, Talysarn, Dyffryn Nantlle ond symudodd y teulu i Lerpwl yn 1904. Bu yn organydd yng nghapel M.C. Edge Lane am 36 o flynyddoedd ond symudodd ef a'i deulu i ardal Oldham a bu yn helpu allan mewn nifer o Eglwysi bach yn yr ardal fel organydd. Dysgodd y grefft i gyfansoddi gan J.H. Roberts, Pencerdd, Gwynedd ac yr oedd yn awdur ar dros ddau gant o emynau donau. Bu farw yn 1984 yn 93 oed.

Yn rhyfedd iawn fel y gwyddoch mae'n siwr fod yna hanes diddorol i emyn y Parch. Rhys Nicholas a thôn Eddie Evans. Mae'n debyg fod yr emynydd wedi bod yn pregethu ar yr adnod "lle yr oeddwn i yn ddall, yr wyf yn wr yn gweled". [Ioan 9.25]. Bu hyn yn symbyliad iddo lunio'r emyn ond awgrymodd ei briod Beti fod angen gwell 'Haleliwia'. Dyma ychwanegu y ddwy linell olaf sydd yn glo perffaith i'r tri pennill. Beiriniad y gystadleuaeth yn Eisteddfod Rhys Thomas James, Llanbed yn 1967 oedd E. Gwyndaf Evans a Gwilym R. Tilsely ac fe wobrwyd emyn y Parch. Rhys Nicholas.

Yn y flwyddyn ganlynol yn ôl yr arfer bellach, roedd y gystadleuaeth yn seiliedig ar gyfansoddi emyn dôn i eiriau Rhys Nicholas. Yr athro Ian Parrot oedd yn beirniadu. Teimlodd yr wythawd er hynny a benodwyd i ganu y dôn fuddugol nad oedd yn dôn gynulleidfaol ac mi ofynnwyd i'r beirniad i ail ystyried a'r ail ddewis fel y gwyddom oedd Pantyfedwen. Elwyn Davies, Fronlas, Llanybydder yn anffodus ydi'r unig un o'r wyth sydd bellach yn fyw. Dyma'i eiriau "Cofiaf yn dda" meddai "o ganu Pantyfedwen o flaen tua 1000 o bobol yn y babell fawr. Yr wythawd ganodd y pennill cyntaf a'r olaf gyda'r tenor enwog o Gwrtnewydd y diweddar Edgar Evans yn canu'r ail bennill. Roedd y gymeradwyaeth yn fyddarol ac mi ofynnwyd i'r parti i ail ganu'r dôn". Mae'r cyfan bellach yn hanes. Mae'n werth darllen mwy am y gystadleuaeth rhyfeddol yma yn llyfr gwerthfawr Gorowny Evans, Llais Llwyfan Llanbed ac y mae llun o'r wythawd i'w gweld ar dudalen 38. O siarad gydag Eddie Evans ar sawl achlysur, rwy'n gwybod faint oedd ennill y gystadleuaeth yn golygu iddo.

Mae'r briodas rhwng emyn Rhys Nicholas a thôn Eddie Evans yn un annatod ond tybed beth fyddai wedi digwydd i'r dôn onibai fod yr wythawd deallus a cherddorol hynny yn 1968 wedi herio dewis cyntaf y beiriniad. Efallai yn wir na fuasai Pantyfedwen erioed wedi gweld golau dydd ac mi fyddai'r genedl wedi colli un o'i thrysoarau a chanu cynulleidfaol oherwydd hynny dipyn dlotach.

(Cyhoeddwyd yn Y Goleuad, rhifyn Mehefin 15 2007).

Cwmann

Enillwyr Misol Clwb 125 y Pwyllgor Pentref

Mai 2020 - 1. - Gwen Jones, Gelliddewi-Uchaf, Parc-y-Rhos, Cwmann, 89. 2. Meirion John, Hendre - Las, Cwmann, 210. 3. Emyr Jones, Awel-Y-Grug, Cwmann, 147. 4. Dana Jones, Cae Coedmor, Cwmann, 211. 5. Wynford Edwards, Ddeunant, Parc-Y-Rhos. Cwmann, 173. 6. Mrs R. Jones, Cherry- Pines, Cwmann, 122. 7. Eifion Davies, Four-Winds, Cwmann, 35.

Mehefin 2020 - 1. Mrs Phillys Price, Brynderi, Cwmann, 89. 2. Marian Thomas, Brondeifi, Cwmann, 66. 3. Tegwyn Lloyd, Penybont, Pumsaint, 87. 4. William Davies, Blaen-Nant-Coy, Cellan, 1. 5. Mr & Mrs B. Hughes, Ramleigh, Cwmann, 50. 6. Shan Davies, Market Place, Llambed, 108. 7. Glesni Thomas, 1 Heol Hathren, Cwmann, 57.

Sefydliad y Merched, Coedmor

Er ein bod yn methu cyfarfod yn ystod y cyfnod anodd yma, yr ydym wedi cadw i gysylltu, a da yw gwybod fod pawb yn cadw yn saff ac yn iach. Rydym yn prowd iawn o Helena sydd wedi bod yn gwneud PPE i'r gwasanaeth Iechyd. Da iawn ti Helena. Llongyfarchiadau i Gwen sydd wedi dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. Gwellhad buan i David John, gŵr Nolene sydd yn yr ysbyty, a dymuniadau da i unrhyw un arall sydd yn anhwylus neu yn hiraethu. Cofiwch gallwch gysylltu ag unrhyw aelod os am sgwrs fach neu angen help mewn unrhyw ffordd. Cadwch yn saff a gobeithio y gallwn gwrdd cyn hir iawn.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Luke a Nerys, 12 Treherbert ar enedigaeth merch fach sef Bonni Mya, chwaer fach i Faye ac wyres arall annwyl i Goronwy a Julia, Esgair Eiddig.

Diolch

Dymuna Phyllis, Cerdin, Annwyl, Angharad, Eleri a theulu'r diweddar Gwilym Price ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt o golli gŵr, tad a thad-cu cariadus. Gwerthfawrogir hefyd y llu o bobl a fu'n dangos parch ar y strydoedd ar ddydd yr angladd ynghyd â charedigrwydd aelodau Bethel Parc-y-rhos.

Dymuna Gwen Gelliddewi ddiolch o waelod calon i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Dymuna John, June a'r teulu, Maesteg ddiolch i bawb am y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd ar golli brawd ac ewythr sef Alun James, Penlan Isaf gynt.

Rhydcymerau

Dymuna deulu y ddiweddar Agnes Williams Maesawel, Rhydcymerau ddiolch yn gynnes iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad mewn gair a gweithred ac am bob caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd am y rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at Gartref Gofal Santes Teresa, Abergwaun.

Bu farw ar y 3ydd o Ebrill 2020 ac fe'i chladdwyd ym mynwent Rhydcymerau mewn gwasanaeth hollol breifat o dan yr amgylchiadau presennol.

"Gwnest Agnes fyd cynhesach i ni gyd,
un a'i gae yn lasach
a'i alaw yn siriolach,
cyfandir o filltir fach." *Y Prifardd Llion Jones*

Silian

Llongyfarchiadau

Mae David a Gwen Davies a'i mab Aron Dafydd o Fferm Gwarffynnon, Silian, Llanbedr Pont Steffan wedi derbyn gwobr Prif Fridiwr 'Master Breeder' gan Holstein UK ar gyfer ei buches, Ormond. Mae'r gymdeithas yn gwobrwyo aelodau sydd wedi cyrraedd safon rhagorol mewn cynhyrchiant llaeth ac wrth sgorio'r gwartheg. Cafodd 19 buches eu gwobrwyo ar draws Prydain eleni a buches Ormond yn un o bedair o Gymru. Maent yn godro 138 o wartheg Holstein pur a Jerseys ac yn bridio'i stoc ifanc ei hun ar 180 acer ar gyrion Llanbed.

Diolch

Dymuna Rhythwyn Evans Maes-yr-adwy, Silian ddiolch o galon am y gefnogaeth a'r haelioni arbennig a dderbyniodd ar gyflawni ei her o gerdded o amgylch ei gartref 91 gwaith, ar achlysur ei benblwydd yn 91 oed. Llwyddwyd i godi'r swm anrhydeddus o £52,375.92 (yn cynnwys Rhodd Gymorth) tuag at Apêl Hywel Dda Covid -19 dan nawdd Elusennau Iechyd Hywel Dda. Mae'r arian wedi ei drosglwyddo i gefnogi'r gweithwyr iechyd sydd wrthi'n gweithio'n ddiarbed i ofalu am gleifion COVID-19 ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd Lleol. Bu'r ymateb yn anhygoel, ymhell uwchlaw pob disgwyliad, a'r targed o £500 a osodwyd ar y cychwyn. Fel teulu, mae'n diolch a'n gwerthfawrogiad yn fawr i bawb wnaeth gefnogi, ymhell ac yn agos.

I Rhythwyn gyda diolch 18.4.2020

Tra bo rhai yn helpu'u hunain,
Helpu eraill yw eich cri,
Tra bob cam a cham yn filltir,
Y filltir fwy yw'ch milltir chi.
Tra bo taith yn eich cynefin
Yn ysbrydoli'r wlad i gyd,
Tra bo rhuddin mewn cymeriad,
Llwybrau Silian ddaeth â'r hud.

Tra bo bwa'r enfys eto'n
Cynnig gobaith, 'fory 'ddaw,
Palet llachar sy'n cyd-blethu
Fel cwlwm teulu, law yn llaw.
Chi gyd-gerddodd â holl weithwyr
'Hywel Dda', a'ch fflam ynghyn,
Chi r'odd wên yn lliwiau'r enfys,
A daw eto haul ar fryn.

Delor James

Llanybydder

Pen-blwydd arbennig

Yn ystod y mis dathlodd Len Ebenezer, Cedars ben-blwydd arbennig. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich diwrnod.

Hefyd, pob dymuniad da i Lowri Haf Davies, Llys Enwyn a ddathlodd ei phen-blwydd yn 30 oed ganol y mis.

Ar ddiwedd y mis, dathlodd Rhodri Evans, Maesgwyn ei ben-blwydd yn 30 oed. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu.

Weldio D & W Welding
01570481153 / 07915543623
Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG
Darparu gatiau a rheiliau haearn ac hefyd eich holl waith weldio ac atgyweirio

ANDREW JAMES
PLYMWR PROFIADOL
OFTEC
Registered Business
Peiriannydd Gwres Canolog
Trwsio, gwasanaethu a gosod boeler
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pympiau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau
Multi Heat Boiler Care
01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Ceginau Lifestyle Kitchens Ltd
CELFI CEGIN A 'STAFELL WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR
SGWÂR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257
www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

SEFYDLWYD 1797
D.LLOYD & SONS
MASNACHWYR COED A NWYDDAU ADEILADU
• TIMBER & BUILDER'S MERCHANTS •
Tanwydd gan gynnwys nwy FloGas.
Glo meddal a chaled o'r ansawdd gorau.
Pelenni pren Brites ar gyfer llosgi mewn stofiau Biomass.
brites
FLO GAS
Glanrwyth, Pumsaint, Llanwrda, SA19 8YU
01558 650209/451
info@dlloydandsons.co.uk
www.dlloydandsons.co.uk

Cofio Gwilym Price

gan Dylan Lewis

Bu farw Gwilym Price yn ei gartref yng Nghwmann ar y 7fed o Fehefin ar ddiwrnod ei ben-blwydd yn 90 oed.

Mae ei enw'n gyfarwydd fel perchennog siop gelfi a llestri adnabyddus yn Stryd y Coleg, Llanbed ac ar gwmni trefnwyr angladdau parchus yn lleol.

Roedd yn ddyn teulu hoffus, yn ddyn busnes craff, yn ŵr bonheddig ac yn gefnogwr brwd i bopeth lleol. Ond beth oedd ei gysylltiad ag Eirwyn Pontshân a Vera Lynn?

Ganwyd Gwilym yn Ffarmers ond bu farw ei dad pan oedd Gwilym yn dair oed. Roedd Gwilym a'i ddau frawd John a Tomi wedi gorfod sefyll ar eu traed eu hunain felly o oedran ifanc iawn.

Cafodd Gwilym y profiad cyntaf o waith angladd pan oedd yn 16 oed. Ni fedrodd barhau â'i addysg oherwydd doedd dim arian i hynny. Bu'n cydweithio yn gyntaf fel saer gyda D J Davies yn Llanbed ond gwnaeth ei brentisiaeth gyda Tomos John o Lanybydder.

Ond ar ôl dwy flynedd o fwrw prentisiaeth, cafodd alwad i'r Lluoedd Arfog ac ymuno â'r Awyrlu. Danfonwyd Gwilym i Berlin fel rhan o'r awyrgludiad enwog, y Berlin Airlift yn 1948.

Wedi dychwelyd i Lanbed yn 1950, ailgydiodd yn ei grefft. Roedd ganddo weithdy tu ôl Neuadd y Dref, cyn dechrau rhentu siop yn Stryd y Coleg gan Arthur Rickets. Ond bu farw'r perchennog mewn tân yn yr adeilad yn 1980, a wedi hynny ailadeiladwyd y lle yn siop foethus iawn a welwn heddiw.

Mae Cerdin ac Angharad, dau o'r pedwar plentyn wedi gweithio yn y cwmni gyda Gwilym a Phyllis ers blynyddoedd ac yn y flwyddyn 2000 yr agorwyd capel gorffwys ganddynt yn Stryd y Bont.

Y dyfyniad sydd ar glawr llyfr "Teulu'r Gymwynas Olaf" a gyhoeddwyd yn 2017 yw "Mae delio â'r meirw yn ffordd o fyw i ni…" a phan mae galar yn ein bwrw, rydym i gyd yn dibynnu ar wasanaeth graenus trefnwr angladdau. Mae Gwilym Price a'i deulu felly wedi cyffwrdd bywydau pawb yn yr ardal hon ac yn gefnogaeth i lawer wrth golli anwyliaid.

Gwelwyd proffesiynoldeb Gwilym, Cerdin a'r teulu mewn cyfres ar S4C o'r enw "Traed Lan" yn 2016, ac roedd Gwilym yn ymfalchïo yn y ffaith bod plant Cerdin hefyd yn enwedig Rhys a Rhodri yn parhau i weithio yn y cwmni.

Adlewyrchai proffesiynoldeb y cwmni yn y ffaith eu bod yn llwyddo i drefnu angladdau o broffil uchel. Cwmni Gwilym Price ei Fab a'i Ferched oedd yn gyfrifol am angladd Gwynfor Evans a Caio Evans.

Dros y blynyddoedd roedd cyfraniad Gwilym Price yn enfawr i'r fro. Bu'n Ynad Heddwch, yn gynghorwr ac yn Gadeirydd y Siambr Fasnach. Roedd yn un o aelodau gwreiddiol Côr Meibion Cwmann a'r cylch ac roedd yn aelod gweithgar iawn o'r Lleng Brydeinig. Gwilym oedd yr un a ddarllenai wrth y gofgolofn yng Nghwmann bob blwyddyn ar Sul y Cofio. Roedd yn aelod ffyddlon o Gapel Bethel Parc-y-rhos ac yn ymddiredolwr.

Mae Gwilym a'r cwmni wedi cyfrannu cadair eisteddfodol ar sawl achlysur gan gynnwys Eisteddfod Genedlaethol 1984, Eisteddfod CFfI Cymru 1986 ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 1999.

Roedd Gwilym yn dipyn o gymeriad, yn berson caredig iawn, yn meddwl y byd o gyrhaeddiadau aelodau'r teulu, yn trysori traddodiadau a'i wreiddiau ac yn dymuno'r gorau o hyd i bobl leol a mudiadau'r fro.

Eirwyn Pontshân – Roedd Gwilym ac Eirwyn Pontshân yn dipyn o ffrindiau. Roedd y ddau yn seiri coed ac yn drefnwyr angladdau ac wedi bwrw eu prentisiaethau yr un pryd yn Llanybydder.

Vera Lynn – Roedd Gwilym wrth ei fodd yn adrodd y stori ei fod wedi canu gyda Vera Lynn. Mewn cyngerdd yn King's Lynn tra'r oedd yn yr Awyrlu, fe ddechreuodd Gwilym a dau arall ganu 'We'll meet again' yn y gynulleidfa ac fe wnaeth Vera Lynn eu gwahodd nhw i'r llwyfan ati!

Cyn cyfnod y cloi mawr hwn, roedd Gwilym dal i fynychu'r siop yn ddyddiol wedi ei wisgo'n drwsiadus bob tro. Roedd yn mwynhau cwrdd â phawb yn y siop ac ar y stryd am sgwrs hyd y diwedd. Bydd y siop, y cartref, y capel a sawl lle arall yn rhyfedd iawn hebddo. Ond yn yr wythnosau diwethaf, gwaethygodd ei iechyd a bu gofal y teulu drosto yn fawr.

Cydymdeimlir yn ddiffuant â Phyllis ei wraig, Cerdin, Annwyl, Angharad ac Eleri y plant a'u teuluoedd.

Casgliad o enwau caeau

gan Mary Eunice Williams

Ganwyd fy mam, sef Mary Eunice Williams, ar fferm Bryndafydd uchaf yn Esgairdawe, Sir Gaerfyrddin. Ar ddiwedd yr wythdegau, cyflwynodd ddarn o waith i Eisteddfod RTJ Pantyfedwen, Llambed yn seiliedig ar enwau caeau yr ardal honno gan egluro tarddiad ambell enw a chyfansoddi ambell gerdd. Dyma flas i chi felly o waith fy mam.

Gwyneth Davies

Cerdd am gaeau Bryndafydd uchaf – fferm y teulu.

'Cofio'r Filltir Sgwâr'

Mae erwau bro plentyndod
Yn dwyn atgofion fyrdd,-
Yr enwau sydd yn annwyl
A'r llwybrau'n fythol wyrdd;
Y banc, cae cnwc, cae melyn,
Cae dŵr a'r hir gae main,
Tyngwndwn a rhasolwen –
Rhai gwerthfawr ydoedd rhain.

Waun fach â'i brwyndir diffaith,
Ddôl eithin a'r ddôl las,
Gerllaw roedd y cae garw
Lle na chai'r gwartheg flas:
Roedd cae-dan-tŷ yn enfawr
A'i gynnyrch gwair yn drwm,
Ond Dic a Dandi'r gaseg
A drechai'r llwythi plwm.

Cae gwlyb oedd fel ei enw
Yn llawn o ddŵr a brwyn,
A'r ddau bant'lan yn ymyl
Yn gaeau pori mwyn;
Ac yng nghae tato buom
Yn plygu lawer gwaith
I gasglu'r cnydau gorau
Oedd i ni oll yn faeth.

Roedd cae-o-war-tŷ uchaf
Y mwyaf serth, yn wir,
Ond cae-o-war-yr-ydlan
Yn ddarn o werthfawr dir:
Cae Ffynnonsawel enwog
Â'i ddyfroedd grisial pur,
Lle drachtiem gynt yn helaeth
Heb ddioddef unrhyw gur.

O'r caeau oll, y ffefryn
Gan bawb o'r plantos iach
Oedd darn bach, hanner cyfer
A'i enw – y cae bach,
Yn hwn y byddem beunydd
Yn chwarae'n ysgafn droed-
Tŷ twt a gemau diddan
Yng nghysgod clyd y coed.

Pan fyddai'r cwmni weithiau
Ar gynnydd gyda ni,
Roedd cae-war-tŷ'n ddefnyddiol
Lle cawsem hwyl a sbri.
Hudolus erwau mebyd,
O na chawn ddod yn ôl
I'ch troedio eto'n llawen-
Pob maes a bryn a dôl.

Hanesion o'r Dyddiau Gynt

(Mae enwau'r ffermydd wedi'u hysgrifennu'n union fel y maent ar Fap yr Arolwg a wnaed ym 1906 e.e Bryn-difyr, gyda chysylltnod. Fe'i ysgrifennir heddiw'n un gair – Bryndifyr)

Ceir ambell hanesyn diddorol ynglyn â tharddiad rhai o'r enwau anarferol sydd ar gaeau ardal Esgairdawe. Mae'n debyg, yn ôl tystiolaeth lafar, fod pandy ar waelod fferm Maes-tyle, nepell o'r afon Marlais. Arferid curo, glanhau a thewhau brethyn yno. Roedd pandai yn gyffredin ar hyd y wlad ar un adeg, ac mae'n amlwg fod hwn yn safle addas i leoli pandy, gan fod digon o ddŵr yn y Marlais gerllaw. Ar fferm Rhyd-afallen-isaf, sy'n ffinio â Maes-tyle, ceir enwau dau gae sy'n cyfeirio at y pandy, sef Cae nesa'r pandy a Chae ucha nesa'r pandy.

Mae cae ym Maes-tyle o'r enw Cae brunant. Credir mai'r sillafiad cywir arno yw briwnant, a bod yr enw wedi deillio o'r ffaith bod yno nant yn rhedeg mewn ffos. Gelwir un o gaeau Cae-mawr wrth yr enw Cae graien. Dywed traddodiad lleol ei fod yn hynod o wyrdd ac iraidd yn wastadol, ac mai dyna'r hyn a olygir wrth y gair 'graien.' Cae merdod yw un o gaeau Tre-domen, - enw anghyffredin. Mae'n ffinio â Chae garw a dywedir ei fod yn gae marwaidd, llonydd a digyffro, yn fwy felly na'r Cae garw ei hun. Credir bod y disgrifiad yma'n hollol gywir gan fod y cymal 'mer' yn cyfleu yr un ystyr â'r gair 'marw.'

Diddorol yw'r enw ar gae fferm Clyn-byr - Cae ffynnon grech. Yn ôl yr hanes, mae'n debyg bod yno ffynnon anghyffredin, gan fod honno, ar un adeg, fel pe bai'n chwerthin yn wawdlyd a phryfoclyd. Mae'n amlwg mai dyna yw arwyddocâd y gair 'grech' sy'n ei ddisgrifio. Cyfeirir at nant fel rhywbeth sy'n ymdroelli, a'r tonnau mân fel pe baent yn canu salm o hiraeth wrth deithio tua'r môr. Fodd bynnag, mae'n amlwg mai anaml y cyfeirir at ffynnon yn ymddwyn ac ymateb fel y ffynnon hon.

Enw un o gaeau Bryndafydd uchaf yw Cae Ffynnonsawel neu Ffynnonsawyl. Dywedir i bentref Llansawel neu Lansawyl dderbyn ei enw oddi wrth 'Sawyl Benuchel,' sy'n cael ei gynnwys ymhlith enwau Seintiau Cymru. Roedd yn fab i 'Pabo Post Prydain' ac yn dad i Sant Asaff. Sawyl Benuchel yw nawdd sant Llansawel ac mae'n debyg ei fod yn llewyrchus ar ddechrau'r chweched ganrif. Roedd Llansawel, ar yr un adeg, yn dref fawr, dan yr enw 'Tref Goch yn Neheubarth.' Yn ôl yr hanes codwyd Eglwys Llansawel yn y chweched ganrif, pan oedd Sawyl Benuchel yn byw yno, oherwydd fe'i cysegrwyd iddo fe.

Derbynia pentref Llansawel gyflenwad digonol o ddŵr pur, ardderchog o ffynnon naturiol o'r enw 'Ffynnon Sawyl' ar dir Beili-tew, fferm fechan uwchlaw'r pentref. Yn ôl traddodiad lleol, credir i Gae Ffynnonsawel ar dir Bryndafydd uchaf ei enwi ar ôl Sawyl Benuchel hefyd. Gwelir yno ffynnon arbennig, o'r hon y ceir digonedd o ddŵr glân, gloyw ar gyfer dyn ac anifail. Credir i Sawyl Benuchel dorri ei syched yma un tro, gyda'r canlyniad fod y ffynnon wedi'i henwi ar ei ôl. Dichon fod y teulu, a arferai amaethu yno ar y pryd, yn aelodau yn Eglwys Llansawel, a diddorol yw cofnodi fod tad-cu y perchennog presennol yn aelod ffyddlon o'r Eglwys honno yn ei ddydd.

Ar fferm Bryndafydd isaf mae dau gae sy'n dwyn yr enwau Rhandir fawr a Rhandir fach. Maent wedi'u lleoli ger y ffin rhwng dwy fferm, sef Bryndafydd isaf a Bryndafydd uchaf. Dywed traddodiad lleol eu bod, ar un adeg yn perthyn i'r ddwy fferm - rhan-dir, sef tir yn cael ei rannu. Mae'n debyg bod perchnogion y ffermydd yn cymryd eu tro i amaethu a chynaeafu'r ddau gae, ac felly, yn cymryd y cynnyrch bob yn ail. Rhaid bod yna gydweithrediad perffaith rhwng cymdogion yr oes honno i beri fod hyn yn bosibl. Efallai ei fod yn syniad doeth, oherwydd mae'n sicr bod y ddau ffermwr yn gwneud ymdrech deg i gael y gorau allan o'r 'rhandir', a thrwy hynny, yn rhoi eu gorau i mewn yn ogystal. Dichon eu bod hefyd yn cadw'r cloddiau a'r perthi mewn cyflwr da, er mwyn sicrhau nad oedd dim o'r cynnyrch yn cael ei ddifetha. Gwaetha'r modd, diflannodd yr arferiad o rannu tir ers blynyddoedd bellach. Tybed a fyddai defnyddio 'rhandir' yn ei ystyr wreiddiol yn bosibl heddiw, yn yr oes fodern?

Cadwyn Cyfrinachau

Enw: Delyth Evans
Oed: 23
Pentref: Silian
Gwaith: Cydlynydd marchnata a digwyddiadau Cyswllt Ffermio
Partner: Tom
Teulu: Eryl, Dai, Jac a Daniel

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Adeiladu twnelu a dens yn y tŷ gwair.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Rala Rwdins.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Os 'neud job, 'neud e'n iawn.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
Dysga mwy na ond cerdd R. Williams Parry, Y Llwynog, ar gyfer arholiad llenyddiaeth Cymraeg TGAU.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Ffarmwr.

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
Flights i Cinque Terre yn yr Eidal ar fy mhenblwydd.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Ar antur, does dim ots ble.

Beth yw dy lysenw?
Del (er, prin iawn o bobl sy'n fy ngalw yn Delyth).

Pwy yw dy arwyr?
Yn gyffredinol, menywod mewn hanes sydd wedi herio eu rôl disgwyliedig mewn cymdeithas. Y rhai o Gymru yn cynnwys Sarah Jane Rees (Cranogwen) o Langrannog a Betty Campbell o Gaerdydd.

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?
Aderyn, er mwyn gallu dianc

i unrhywle ar unrhyw bryd.

Beth yw dy arbenigedd?
Cacen lemwn.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Cwmni da a lot o dynnu coes.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?
Cymudo yn y bore (h.y. cyn y Lockdown).

Y peth gorau am yr ardal hon?
Digon o fynyddoedd i grwydro.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Bandiau miwsig byth yn dod ymhellach na Chaerdydd.

Beth yw'r siopau annibynnol lleol wyt ti'n ymweld â nhw fwyaf aml a pham?
Instagram Alis.knits am ei phatrymau difyr.

Beth wyt ti'n ei wneud yn dy amser hamdden?
Mynd am wac gyda'r cŵn.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg.

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?
Rhywbeth gall ddylanwadu ar ganslo Brexit!

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Rhywun sydd â gormod o gwestiynau busneslyd.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Bwcio trip mawr o amgylch De America.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Llygod.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Dim ers sbel nawr bod y tafarnau 'di cau.

Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?
Bod dim byd 'mlan 'da fi yn yr ystafell pella (fi 'di bod yn stripo'r papur wal a'r plastar o'r wal gerrig heb yn wybod i dad).

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno?
Yng nghanol cae yn Glastonbury gyda Radiohead yn chwarae ar y llwyfan.

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Tocynnau i Glastonbury blwyddyn nesaf.

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?
Licen i wedi astudio iaith newydd wrth ochr fy ngradd Hanes yn y brifysgol.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Rhedeg, cerdded neu seiclo yn rheolaidd.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Does dim un drwg yn ddrwg i gyd.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Anturus, uchelgeisiol, dawel.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Volvo.

Beth yw dy hoff air?
Mudandod.

Beth yw dy hoff wisg?
Dillad bob dydd.

A'th hoff adeilad?
Dw i'n mwynhau ymweld â hen gestyll.

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Tomos achos bod e mor bwyllog.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Bwyd Indiaidd

Beth yw dy ddiod arferol?
Crabbies.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Dw i'n trial darllen yn eang ond gydag arfer gwael o ail ddarllen Harry Potter sawl gwaith y flwyddyn.

Beth yw dy hoff arogl?
Glaw cynnes ar ôl cyfnod sych.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Gwylio ffilm neu ddarllen.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â

Cadwyn Cyfrinachau

hi fwyaf aml?
Trydar.

Hoff gân ar dy ipod / dy restr chwarae?
White Flag, Dido.

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf mewn sinema?
Little Women, yr addasiad mwyaf diweddar o glasur Louisa May Alcott.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Bela, Dot (y ddwy Scottie) a Pws.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Siarad Sbaeneg

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Digon o gwsg a gwneud ymarfer corff gyda'r bore.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
Yr awydd am wybodaeth a dealltwriaeth.

Y gwyliau gorau?
Mynd i ŵyl taflu tomatos yn nhref Buñol, Sbaen.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Mexico, De Affrica, Colombia.

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?
Trafeili tipyn o'r byd, adnewyddu hen dŷ, rhedeg marathon.

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?
Teithio mewn amser.

Petaet ti'n anweladwy am ddiwrnod, beth fyddet ti'n ei wneud?
Sleifio o gwmpas Palas Buckingham.

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Darllen.

Testun Cyfrinachau'r nesaf:
Bradley Lewis , Llangybi.

Mae rhifynnau digidol Papur Bro Clonc yn cyrraedd mwy o ddarllenwyr na rhifynnau papur arferol.
Lawrlwythwyd rhifyn Mehefin 1,445 o weithiau oddi ar wefan www.clonc.co.uk
a gall nifer y darllenwyr fod yn fwy na hynny. Rydyn ni i gyd yn hoffi rhywbeth am ddim!

Clwb Clonc

Gorffennaf 2020

£50 rhif 457 :
Llion a Meirion Thomas, Llambed.
£50 rhif 47 :
Ifan Teifi Davies, Llambed.
£25 rhif 14 :
C.Ff.I. Llanllwni.
£25 rhif 168 :
Mrs Rhian Haf Evans, Cwmann.
£20 rhif 146 :
Eirwyn Evans, Llanllwni.
£20 rhif 111 :
Fiona Davies, Cwmann.
£15 rhif 376 :
Richard Morgan, Llambed.
£15 rhif 109 :
Plantos Llysteifi, Cwmann.
£10 rhif 274 :
Mrs Irene Jones, Llambed.
£10 rhif 368 :
Aled Llyr, Llandeilo.
£10 rhif 366 :
Gareth, Cerys a Betsan Lloyd, Talgarreg.
£10 rhif 226 :
Ieuan James, Llambed.
£10 rhif 417 :
Mrs Morfudd Rees, Llanllwni.
£10 rhif 307 :
Eirios Jones, Cwmann.
£5 rhif 100 :
Mrs Elaine Davies, Llanwnnen.
£5 rhif 117 :
Dai Davies, Penfforrdd.

Monolog Delyth

Yn Eisteddfod T a gynhaliwyd gan yr Urdd eleni, fe gipiodd Delyth Evans, Tangraig yr ail wobr yng nghystadleuaeth y Fedal Ddrama. Dyma beth ysgrifennodd hi.

Allai ddim cofio pryd ges i fath diwethaf. Rhaid bod dros ddeng mlynedd.

Mi oedd bath i gael 'da ni yn blant, oedd, ond doedd mam byth yn hoff iawn ohonom ni'n ei defnyddio hi. Mynd â gormod o ddŵr, meddai hi. Er, ambell waith pan oedd cyfle, byddai Marged a finnau'n rhannu. Doeddwn ni ddim yn mentro ei llenwi hi mwy na chwarter llawn rhag cael stŵr, ond rwy'n cofio teimlad y dŵr yn chwyrlïo rhwng bysedd fy nhraed, a sut oedd ein cyrff bach gwelw yn ffitio'n dwt yng nghysgod ein gilydd yn y twb. Tro blaenau bysedd Marged yn grychau gwyn yng ngwres y dŵr bob tro; doedd rhai finnau byth yn gwneud am ryw reswm.

Ond, na, cawod dwy funud oedd hi bob nos Sul gan amlaf.

Duw, mae'n anodd credu mai fi oedd honno yn y bath. Fi! Ha! Er, mae'n anoddach fyth credu fy mod wedi ffeindio fy ffordd yn ôl yma, a'r dŵr yn parhau i goglais fy nhraed gan boeni dim am y crychai sydd wedi cronni arnynt ers y bath diwethaf. A drychwch, mae hyd yn oed bubble bath i gael 'ma. Duw, maen nhw'n ein sbwylio ni.

Ein sbwylio ni. 'Na ddoniol. Mae'n anhygoel beth gall dyn ddod yn gyfarwydd â yn y byd yma. Dylai to ar ein pennau a dŵr glân i ymolchi fod yn hawl ddynol ar y lefel mwyaf sylfaenol, dylai siŵr? Wel, gallai ddim bod yn siŵr am y fath gwestiwn rhagor, os dw i'n hollol onest.

Rhaid mai meddwl am eu teuluoedd eu hun oedden nhw pan ges i'r ystafell yn y gwesty yma. Meddwl am iechyd Theodore a Camilla fach, neu am grandma Liz yn ei phlas yng nghanol Kensington. Pryderu am rywun fel fi yn heintio rhywun fel nhw â'r feirws.

Dyna oedd gwraidd y gofid.

A dyna sut cefais i, a Bil, a Steff, a Mai ein cartrefi am y tro. Dyna'r unig reswm nad ydyn wrthi heno yn brysio i ddod o hyd i'n gwlâu am y nos, ac yn dihuno bore fory i dorf o gymudwyr; eu hesgidiau sgleiniog yn cwrdd â'n llygaid i'n llongyfarch am oroesi noson arall ar y strydoedd.

A phwy tybed, sydd newydd ddod yn ôl o'i gyfarfod pen draw'r byd? Ac ers hynny, wedi bod yn ymweld â'i dŷ haf am benwythnos lawr yng Nghernyw? Neb ond tad Theodore bach a mab llwyddiannus yr hen Liz, wrth gwrs. Ac maen nhw'n ofni mai fi sydd am wasgaru'r clefyd. Fel dywedais i, doniol.

Dau ddiwrnod cofiwch. Dau blydi diwrnod y cymerodd iddynt drefnu lloches i drigolion digartref y wlad. A hwythau, ers blynyddoedd, yn pregethu o'i swyddfeydd crand fod y dasg am gymryd o leiaf pum mlynedd. Cawsom ein casglu fel plant coll mewn archfarchnad, ac yntau'n esgus eu bod wedi bod yn chwilio amdanon ni ers y dechrau.

Doedd dim angen chwilio; da ni'n blaen os ydych yn dewis ein gweld.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau ar gyfer y rhifyn hwn. Gan na chynhelir digwyddiadau dros fisoedd yr haf, byddwn ni yn yr un sefyllfa eto wrth baratoi rhifyn Medi, felly ewch ati i ysgrifennu a danfonwch eich darnau at y golygydd.

Clybiau Ffermwyr Ifanc

C.Ff.I. Ceredigion

Dyma fis arall wedi gwibio heibio! Er nad ydym yn cwrdd wyneb yn wyneb, rydym yn cadw'n brysur ac yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd drwy gynnal nosweithiau clwb dros y rhyngrwyd.

Eleni, bydd Rali go wahanol i'r arfer. Na, nid heidio i Lanwenog, ond rydym yn torri tir newydd drwy gystadlu ar-lein! Mae nifer o wahanol gystadlaethau o farnu stoc dros Zoom i greu TikTok lip-sync, arwydd diolch a fideo ffitrwydd. Plethu'r traddodiadol gyda bywyd beniwaered heddiw! Felly, 'watch this space'!

Fis yma eto, rydym am rannu hanes aelodau gyda chi a phedair stori go wahanol y cawn ym mis Mehefin.

Dechreuodd Marged Jones o Glwb Mydroilyn y cyfnod clo ben draw'r byd! Beth oedd hi'n gwneud yno, dwi'n clywed chi'n gofyn? Wel, aethon ni ati i sgwrsio gyda Marged i glywed ei hanes.

"Ymgeisiais o dan gynllun teithiau tramor gyda C.FF.I. Cenedlaethol, gyda'r daith yn cael ei noddi gan C Alma Baker Trust. Bues yn ffodus o gael fy newis ar ôl cyfweliad i fynd i weithio ar fferm Limestone Downs, yn ynys y gogledd Seland Newydd rhwng Ionawr ac Ebrill 2020."

"Mae ffermio yn Seland Newydd ar raddfa lawer yn fwy na Chymru, ac mae'r gefnogaeth i ffermio yn llawer fwy yn Seland Newydd gan fod ffermio yn rhan hanfodol o'r economi. Oherwydd bod tywydd yr haf yn tueddu i fod yn sychach na Chymru, nid oes gymaint o bwysau ar y ffermwyr i gymryd mantais o'r tywydd braf i gynhaeafu silwair. Felly mae cydbwysedd bywyd a gwaith ychydig yn well na fan yma. Ond weithiau gan ei bod hi'n sychach allan yn Seland Newydd, mae hyn yn rhoi heriau eraill iddynt, fel diffyg porfa."

"Roeddwn yn wreiddiol fod i hedfan adref o Seland Newydd ar y 6ed o Fai, ond oherwydd y feirws a'r 'lock down' roedd pob peth yn cael ei ganslo, ac roedd prisiau hedfan un ffordd yn ddrud iawn. Ond bues yn lwcus tu hwnt o fedru hedfan adref ar y 6ed o Ebrill a dim ond tridiau o rybudd cefais i drefnu'r cwbwl, gan nad oedd llawer o gwmnïau awyrennau yn hedfan. Syndod mawr oedd dod nôl i faes awyr gwag Heathrow ar y 7fed o Ebrill gyda neb yn rhoi unrhyw gyfarwyddyd am hunan ynysu. Ond er hyn, fe wnes i hunan-ynysu am bythefnos wedi i mi gyrraedd adref."

Gofynnais iddi a oedd ganddi stori i'w rannu o Seland Newydd... "O ni'n meddwl bod fi'n casáu pysgota cyn mynd i Seland Newydd, ond ddales i hwn o fewn 5 munud o roi'r wialen bysgota yn y dŵr- Snapper yw'r enw ar y pysgodyn yma. Ges i'r llysenw 'Snapper Slayer' tra bues i yno."

Mae'r Mudiad yn llawn o aelodau hunangyflogedig, ac mae'r cyfnod yma wedi cyfyngu'n fawr arnynt. Ond mae un aelod, Betsan Hughes o Landdeiniol, am herio'r cyfyngiadau yma ac wedi mentro ac addasu ei busnes yn y cyfnod clo.

"Dwi'n berchen ar fusnes dylunio ac adnewyddu dillad, 'Betsan Jane', felly fel arfer yn ystod y cyfnod yma o'r flwyddyn bydden i'n brysur iawn yn fy nghaban pren sydd wedi'i leoli ar ein fferm deuluol - Llwynbedw yn Llangwyryfon. Yn anffodus, gan nad oes priodasau yn cael eu cynnal eleni, dwi'n dawelach nag arfer. Ond dwi'n edrych ymlaen at groesawu fy nghwsmeriaid yn ôl i'r caban. Gan nad oes cymorth gan y Llywodraeth ar gyfer busnesau newydd, mi fyddai wedi bod yn anodd aros tan fyddai'r pandemig wedi dod i ben cyn derbyn unrhyw fath o incwm. Felly, dechreuais greu dillad plant a'i enwi'n 'Beti Bwt'. Dwi'n mwynhau creu dillad plant, wrth i mi greu ambell i beth i'm nith a'm nai. Wrth i mi fynd ati i greu casgliad Beti Bwt, roeddwn i'n ystyried beth fydde Alaw a Macs yn eu mwynhau gwisgo. Dwi wedi creu dillad gyda'r thema tractor i fois a'r thema cactws i'r merched a hefyd dillad i'r oedolion i gyd-fynd â'r plant."

"Er gwaetha' y lockdown, dwi'n credu bydde cwpwl o bethe positif yn medru dod allan o hyn. Mae cynnydd yn y gefnogaeth i fusnesau bach gan nad yw'r cwmnïau mawr yn medru cadw i fyny gyda'r galw. Gobeithio bydd y gefnogaeth yma yn mynd i barhau ar ôl i'r lockdown yma basio a bod llai o air miles ar y cynnyrch yr ydym yn eu prynu."

Nyrs yw Meleri Davies o Lanwenog yn uned gofal dwys ysbyty Treforys, Abertawe. Un o arwyr rheng flaen y gwasanaeth iechyd ac fe gawsom gyfle prin i'w holi am y newidiadau i'w bywyd yn y cyfnod yma.

"Yn bersonol, rwyf wedi gorfod symud i fyw gyda fy ffrindiau gwaith yn y cyfnod yma er mwyn gallu hunanynysu a chadw fy nheulu yn ddiogel gan fy mod mewn cysylltiad â chleifion Covid-19. Yn y gwaith, rhaid i ni ddechrau shifft hanner awr yn gynt er mwyn medru newid 'scrubs' a gwisgo deunydd diogelwch cyn mynd ar y ward. Mae'n rhaid i ni wisgo masgiau am ein cegau a haenen o blastig er mwyn amddiffyn ein gwynebau rhag y clefyd. Mae menig hefyd yn rhan bwysig o'r wisg amddiffynnol. Rhaid i ni wisgo'r wisg ychwanegol yma am bedair awr o'r bron, ac wedyn cael seibiant a newid gwisg cyn trin claf gwahanol. Fel rhan o'm swydd, rhaid i mi hyfforddi nyrsys ar sut i ddefnyddio offer gofal dwys, megis peiriannau anadlu a pheiriannau cynnal bywyd. Ar ôl gorffen shifft, mae'n rhaid cael cawod a newid dillad cyn gadael yr ysbyty er mwyn amddiffyn eraill rhag y clefyd."

"Pe bawn i am roi neges i bawb, fe fyddwn i'n cynghori pobl i fod yn gall ac yn ddiogel, gan gadw pellter a dilyn gofynion y Llywodraeth. Mae hyn yn bwysig er mwyn atal lledaeniad y clefyd ac er mwyn diogelu bywydau'r rhai mwy bregus o fewn ein cymunedau."

"Ar ôl dod allan o'r cyfnod clo, rydw i'n edrych 'mlaen i gael treulio amser gyda fy nheulu a ffrindiau (gan ddilyn canllawiau'r Llywodraeth). Rydw i hefyd yn edrych ymlaen at fyw yn ôl yng nghefn gwlad Ceredigion a mwynhau awyr iach gwledig."

Cyfraith yw maes Manon Jones o Dregaron, a gofynnom iddi beth yw'r newidiadau ma hi wedi'u weld i'w bywyd?

"Ma Covid-19 yn golygu bod y swyddfa wedi cau i'r cyhoedd a ni nawr yn delio a chleientiaid trwy e-bost ac ar y ffôn sy'n gallu bod yn heriol ar ôl arfer cwrdd â phobl wyneb yn wyneb. Ma'r staff hefyd yn rhannu amser rhwng y swyddfa ac adref ac mae'n siŵr bod y rhan fwya' sy'n gweithio o adre erbyn hyn yn gallu uniaethu gyda rhai o'r heriau sy'n dod yn sgil hynny! Dwi'n delio gyda chyfraith eiddo gan fwyaf ac ma'r sefyllfa bresennol wedi effeithio'r farchnad dai a'r gallu i barhau a chwblhau materion."

"Y peth mwya' positif dwi wedi'i weld yw shwt ma'r cymunedau lleol wedi dod at ei gilydd i gefnogi a rhoi cymorth i fusnesau lleol ac i unigolion mwya' bregus ein hardaloedd gwledig ni. Dwi'n edrych mhla'n i weld ffrindie a theulu a gallu ymgymryd nôl â gweithgareddau cymdeithasol."

Hoffwn gymryd mantais o'r cyfle yma i longyfarch a diolch i bob aelod sydd wedi bod yn cynnig cymorth yn eich cymunedau a'ch annog chi fel trigolion i gysylltu yn y ffyrdd arferol os bod unrhyw beth allwn ni wneud i helpu, ar 01570 471 444 neu drwy e-bost ar anne@yfc-ceredigion.org.uk.

Tan y tro nesaf, cadwch yn ddiogel,

Elliw ac Elin

Llanfair Clydogau

Capel Mair

Cafodd yr arwynebedd y tu allan i Gapel Mair draws-newidiad yn y dyddiau diwethaf pan ddaeth aelodau'r capel ynghyd, sef Eleri ac Arwyn Pentre, Ian Esgairman, Dai Llanfairfach, Wendy Blaencwm, Dan ac Aerwen, Pengarn ac Alan bach, i chwynnu a cheibio y cyfan. Yna rhoddwyd croenyn drosto a'i orchuddio gyda llechu man. Mae'r cyfan yn edrych gymaint yn well a'r capel bach yn barod i agor y drysau unwaith eto, gobeithio yn fuan. Diolch i Eleri am baratoi picnic i ni i gael amser cinio ac i Jean y siop am baratoi te a choffi a bisgedi i ni.

Hefyd hoffem groesawu tenat newydd i'r Tŷ Capel sef Ricardo Hobbs. Mae wedi bod yn byw yng Nghellan ers blynnyddoedd ac yn adnabyddus yn yr ardal. Croeso mawr iddo gan gobeithio y bydd yn hapus yn ein plith.

Dymuniadau gorau

Pob dymuniad da i Ceris Quan, Swn yr Afon, a Llyr James o Rhydowen yn eu cartref newydd yn Brynhafod, Adpar. Hefyd llongyfarchiadau i Ffion Quan, Swn yr Afon, ar dderbyn swydd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Pob hapusrwydd i'r ddwy chwaer.

Llanllwni

C.Ff.I. Llanllwni

Ddim llawer newydd gyda fi i sôn am C.Ff.I. Llanllwni, ond hoffwn ddweud diolch i'r holl weithwyr allweddol unwaith yn rhagor. Mae Cffi Llanllwni yma i helpu mewn unrhyw fodd posib drwy gysylltu â'r rhifau isod, peidiwch ag oedi i godi'r ffôn.

Serch hyn, rydym yn edrych ymlaen at Sioe ddigidol ym mis Awst 2020, gyda'r testunau i gyd i'w rhannu ar Facebook yn fuan, rhywbeth at ddant y teulu cyfan ! Cadwch lygad allan amdanynt a chadwch yn saff.

Ysgol Llanllwni

Tawel a gwag yw'r ysgol wedi bod ers rhai misoedd fel mwyafrif o ysgolion eraill gyda dyfodiad y pandemig Coronafeirws. Erbyn i'r rhifyn yma ymddangos fe fyddwn wedi ail-agor ond yn edrych dipyn yn wahanol i'r arfer. Bu'r staff yn brysur yn paratoi gan aildrefnu'r dosbarthiadau yn ôl canllawiau y Llywodraeth a'r Sir, er mwyn derbyn grwpiau bach o blant sydd am ddod yn ôl am rai sesiynau tan gwyliau Haf a hynny mewn ffordd mor ofalus a diogel â phosib. Ers gorfod cau mae'r athrawon a'r plant wedi addasu'r dull o ddysgu a gweithio drwy ddefnyddio dulliau ar-lein. Rhaid diolch i'r rhieni a'r plant am ymdopi a chyd-weithio mor dda. Mae'r athrawon hefyd wedi bod yn cadw cysylltiad â'r plant a'r rhieni drwy lythyron a galwadau ffôn.

Dymunwn yn dda i ddisgyblion Blwyddyn 6, sef Tudur George, Emrys Evans ac Eirwen Evans a fydd yn gorffen eu haddysg yn Llanllwni ar ddiwedd y tymor. Dymunwn yn dda i Tudur a fydd yn dechrau yn Ysgol Bro Teifi ac i Emrys ac Eirwen a fydd yn dechrau yn Ysgol Bro Pedr ym Mis Medi. Rydyn wedi eich gweld yn datblygu dros y blynyddoedd a dymunwn pob llwyddiant i chi yn y dyfodol.

Sefydlu Cadeirydd Newydd

Mae Cadeirydd newydd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael ei ethol mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol ar-lein - y cyntaf o'i fath yn hanes y sir.

Cymerodd y Cynghorydd Ieuan Davies, sef yr Aelod dros Ward Llanybydder, y gadwyn swyddogol yn fyw ar-lein ddydd Mercher.

Y Cynghorydd Davies fydd Cadeirydd y Cyngor am y 12 mis nesaf gyda'r Cynghorydd Eirwyn Williams, yr Aelod dros Gynwyl Gaeo, yn Is-gadeirydd.

Ymhlith dyletswyddau'r swydd mae bod yn gadeirydd ar gyfarfodydd llawn y Cyngor, cynrychioli'r Cyngor mewn digwyddiadau ffurfiol a seremoniol, croesawu ymwelwyr i'r Sir, a bod yn bresennol mewn digwyddiadau a drefnir gan bobl a sefydliadau lleol a'u cefnogi.

Mae wedi dewis Ymddiriedolaeth Canser y Prostad ac Eglwys Sant Pedr, Llanybydder fel Elusennau'r Cadeirydd ar gyfer y Flwyddyn.

Wrth siarad ar ôl y cyfarfod, dywedodd y Cynghorydd Davies: "Mae'n rhoi pleser mawr i mi gael fy ethol yn Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer blwyddyn y cyngor 2020/21. Dechreuais ar Gyngor Cymuned Llanybydder tua 40 o flynyddoedd yn ôl, ac yn 1995 cefais fy ethol yn Gynghorydd Sir. Rwyf yn byw fy mywyd i helpu eraill yn fy nghymuned ac rwyf wedi bod yn ymwneud ag amrywiol sefydliadau lleol dros y blynyddoedd. Byddaf yn parhau i godi arian ar gyfer yr elusennau yr wyf wedi'u dewis, ond mewn ffordd wahanol oherwydd y pandemig coronafeirws.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn arf pwerus yn y byd cyflym a newidiol hwn, ac mae'n syndod beth sy'n gallu cael ei wneud yn ddigidol. Rwyf yn edrych ymlaen gydag egni o'r newydd i gyflawni fy rôl a gwneud fy ngorau glas yn yr amserau heriol hyn."

Wedi ei addysgu yn Llanybydder, Llanbedr Pont Steffan ac yng Ngholeg Llandrillo yn Rhos yng Ngogledd Cymru, mae'r Cynghorydd Davies wedi bod yn Gynghorydd Sir am y 25 mlynedd diwethaf ac yn Gynghorydd Cymuned am 21 mlynedd.

Mae'n un o sylfaenwyr ac yn Ymddiriedolwr yng Nghanolfan Gymunedol Hen Ysgol Llanybydder ac yn Gadeirydd Pwyllgor Canser Cangen Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan, mae'n drefnydd gydag Apêl Pabïau'r Lleng Brydeinig Frenhinol, Cangen Llanybydder, ac yn un o lywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanybydder.

Mae'n gwasanaethu fel Is-gadeirydd ar Bwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd y Cyngor a'r Panel Adolygu Tai, mae'n aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ac yn wirfoddolwr yn Ysbyty Treforys.

Fel triniwr gwallt wedi ymddeol, sefydlodd y Cynghorydd Davies ei salon ei hun yn Llanybydder yn 1974.

T. Emyr Jones
Adeiladwr

Araul, Cwmann
01570 423921
07867 945174

Plymio a Gwresogi
DANIEL DOUGHTY
Plumbing & Heating Services
Gas/LPG & Oil Services
Renewables • Installation
Maintenance • Breakdowns
Boiler Servicing • Sprinklers
07969 289679
d.doughtyplumbing@gmail.com

Ruth Thomas
a'i Chwmni
Cyfreithwyr
Canolfan Fusnes Coedmor,
[Hen Ysgol Coedmor],
Cwmann, Llambed, Sir Gâr.
SA48 8ET.
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant
Eryl Jones Cyf
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/ cynnwys
Tai Bwyta / Siopau
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
E-bost: carol@ejic.co.uk
Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoledig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

E.JONES
PLUMBING & HEATING LTD
01570 480 108
07811 701 857
office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk

Drefach a Llanwenog

Codi arian i'r Ambiwlans Awyr

Ar adeg pan y mae cymaint o bobl yn codi arian at elusennau haeddiannol, mae brawd a chwaer o Drefach wedi penderfynu gwneud yr un peth. Mae'r efeilliaid Anna a Dion Siencyn Evans, Tŷ Clyd, sy'n 8 oed, wedi cerdded 52 o filltiroedd er mwyn codi arian i Ambiwlans Awyr Cymru, ac hyd yn hyn maent wedi casglu £1630.

Hoffai'r teulu ddiolch i bawb am eu cyfraniadau, ond dydy hi ddim yn rhy hwyr os hoffai rywun arall ychwanegu at y swm arbennig yma.

Diolch yn fawr Dion ac Anna, a da iawn chi.

Cronfa Neuadd Drefach

Mae cais i ddodrefnu'r Neuadd gyda byrddau a chadeiriau newydd wedi cael ei lawnsio.

Y syniad yw ennill cymaint o bwyntiau a phosib er mwyn teilyngu mynd ymlaen i'r cam olaf o'r broses.

Wrth ddilyn y linc i'r safle Crowdfunder, dewch i'r Project Page sy'n egluro'r prosiect ac yn cynnwys fideo byr.

Medrwch ennill 1 pwynt wrth Hoffi'r prosiect (Like), 1 pwynt with Rannu ein Tudalen Prosiect (Facebook,Twitter, WhatsApp/Instagram) a 10 pwynt trwy wneud cyfraniad o £1 neu fwy.

Bydden yn ddiolchgar petaech yn rhannu'r dudalen prosiect ar y cyfryngau cymdeithasol i bobl ymhell ac agos.

Mae dros 50 o ymgeiswyr yn ceisio ennill digon o bwyntiau i gyrraedd y 22 uchaf. Eich cefnogaeth chi yw'r allwedd i'n siawns ni o lwyddo. Dyma'r linc i'n Tudalen Prosiect
communityfund.calor.co.uk/5087bd1610cabd523c69b42ab0f98e73

Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

Gordon Lonsdale a Geraint Davies
(ar ran pwyllgor y Neuadd)

Gwellhad Buan

Braf gweld Caryl Davies, Glynfaes adref yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty gan obeithio'r gorau am y misoedd nesaf.

Cydymdeimlo

Danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf â Emyr a Gillian Jones, Meysydd ar ei profedigaeth diweddar. Collwyd chwaer sef Mair Evans o Gaerfyrddin ond gynt o'r Hendy ar ddechrau mis Mehefin.

18 oed

Yn ystod y mis dathlodd Ben Lewis, Rhiwson ei ben-blwydd yn 18oed. Gobeithio i ti fwynhau er gwaethaf y clo mawr.

Cwmsychpant

Cydymdeimlo

Cofiwn am Lynn a'r teulu ym Mhenlanfawr ar golli modryb yn ystod dechrau mis Mehefin ym mherson Mrs Marina Hughes o Gilcennin. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyraf.

Alltyblaca

Dathlu

Pen-blwydd hapus i Mrs Elin Watkins, Caedabowen ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ystod y mis.

Llythyr

Trefn Newydd i arlwy 'Clwb Cylch'

Yn ystod y mis diwethaf, mae Mudiad Meithrin wedi cyfrannu at weithgarwch Cymraeg yn y cartref trwy ddarparu sesiynau agored dan faner 'Clwb Cylch' (#ClwbCylch) i blant oedran Cylch a'u rhieni trwy lwyfannau digidol – gyda phwyslais penodol ar blant o deuluoedd ble na siaredir y Gymraeg yn y cartref.

Pleser yw cyhoeddi y bydd sesiynau Clwb Cylch yn parhau o ddiwedd mis Mehefin hyd at ddiwedd mis Awst, gan ddarlledu cyfuniad o sesiynau newydd sbon, ailddarllediad o ambell sesiwn Clwb Cylch blaenorol a detholiad o fideos gan staff cynllun 'Cymraeg i Blant'.

LYN JONES
"At eich gwasanaeth"

• Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
• Symud celfi
• Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
• Trwydded i gario gwastraff
• Wedi yswirio'n llawn
01570 481029
Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL

Lampeter Shooting Sports

Cyflenwyr gynnau, reifflau, reifflau awyr, sgopiau, sgopiau golwg nos a monocwlar, dillad saethu, cetris a bwledi.
info@lampetershootingsports.co.uk
www.lampetershootingsports.co.uk
Sgwâr Harford, Llanbed
01570 422288

MiS y PaPUr NeWYdD

Colofn Dylan Iorwerth

Macdonalds – o La Paz i Lanybydder

Ym mhrif ddinas Bolivia y clywais i un o'r pethau brafia' erioed ... ac mi ddaeth i'r cof wrth gerdded un o'r lonydd bach gwledig uwchben Llanybydder.

Eistedd ar fwrdd y tu allan i dŷ bwyta lliwgar oeddwn i (yn La Paz, nid Llanybydder) ac yn mwynhau pastai fach o'r enw salteña – digon tebyg i basty o Gernyw ond fod yna ffordd arbennig iawn o'i bwyta hi.

Y cam cynta' oedd brathu ei phen hi, ei chodi hi'n uchel a sugno'r sudd a'r grefi ohoni, gan drio peidio colli'r rhan fwya' i lawr eich gên a thros eich crys.

Mae'r enw salteña yn cyfeirio'n ôl at y wraig a greodd y bastai – roedd hi'n dod o dre' o'r enw Salta yn yr Ariannin ac wedi gorfod symud i dre' Potosi yn Bolifia.

Tre' fwyngloddio ydi Potosi – yn union fel ardaloedd cloddio Cernyw – ac efallai mai dyna pam fod gan y bastai, fel y pasty, grystyn tew ac ychydig o ymyl i afael ynddi ... fel nad oedd y gwenyn o'r metalau yn mynd o'ch bysedd i'ch ceg.

Beth bynnag, er mor bell oedd hyn i gyd o Lanybydder, mi gofiais i flas y salteña wrth fynd â'r ci am dro a sylwi bod ymylon y ffordd yn lanach nag ers blynyddoedd.

Wrth fwyta'r salteña, mi ddywedodd un o'r bobol leol yn llawn balchder mai'r bastai fach flasus yma oedd prif fwyd cyflym Bolifia i gyd. Roedd hi'n fwy poblogaidd nag unrhyw fyrgyr na bwyd cyflym Americanaidd.

A dweud y gwir, meddai, roedd hi mor boblogaidd fel bod yr unig gaffis Macdonalds ym Molifia wedi gorfod cau. Y funud honno, wrth i fi lyfu'r grefi o ymyl fy ngheg, Bolifia oedd un o'r ychydig wledydd yn y byd heb Facdonalds.

Ac, am ychydig wythnosau, roedd Cymru yr un peth. Un o'r newidiadau anferth a ddaeth am ychydig yn sgil y feirws Corona oedd fod Macdonalds wedi gorfod cau. A dyna ddod â ni i Lanybydder.

Ers blynyddoedd, mae ymylon ffyrdd yr ardal yma – a hyd yn oed y darn o darmac o flaen tŷ ni – yn cael brech o gartons Macdonalds, yn fygiau a bocsys polystyrene, wedi dod mae'n rhaid o drefi pell fel Caerfyrddin ac Aberystwyth.

Ond yn y cyfnod diweddar, wrth i bawb orfod cadw at gyfyngiad o bum milltir, does fawr neb o'r ardaloedd yma wedi gallu cyrraedd y 'Drive-thru' ym Mhensarn neu'r llall ar gyrion Llanbdarn.

Canlyniad hynny ydi fod ymylon y ffyrdd, uwchben Llanybydder ac o gwmpas tŷ ni ... a phobman arall am wn i ... yn lân o gartons Macdonalds. A bod yn deg, roedd caniau lager a Red Bull a bocsys sgod a sglod lawn cymaint o niwsans ond yr M oedd yn tynnu sylw.

Am yr ychydig ddyddiau nesa', felly, mwynhewch weld glaswellt a blodau a rhedyn di-rybish hyd ymylon y ffyrdd. Ac ystyriwch sut y mae hyn yn arwydd o'r hyn allai fod mewn llawer o ffyrdd eraill hefyd.

Er gwaetha'r rhai elfennau gwirioneddol galed – methu â gweld teulu a ffrindiau a mwynhau cymdeithasu – mae yna agweddau o'r cyfnod cloi wedi bod yn llesol. Yr arafu, y tawelu, y sylwi ar natur, y gwrando ar adar, y siopa mwy lleol ... a'r peidio â thaflu sbwriel Macdonalds.

Mae'r sgeptig yno' i yn ofni mai mynd yn ôl wnawn ni i ruthro a brysio, i deithio'n ddiangen ac i wneud gormod o sŵn i glywed cân yr adar. Ond mae yna ryw ddarn rhyfedd, rhamantus, ohona' i yn dal i obeithio y bydd hi fel arall.

Petaen ni'n dysgu'r gwersi, mi fydden ni'n trio byw'n fwy rhesymol a diolchgar a dod i werthfawrogi'r hyn sy'n union o'n cwmpas ni. I lawer, gan gynnwys, yn amlwg, pobol Bolifia mae Macdonalds yn symbol o fywyd y Gorllewin.

Iawn, mae Big Mac yn neis, ond ddim cystal â salteña.

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
ADVE
ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS CYFREITHWYR
33 Stryd Fawr, Llambed
01570 422517 post@adve.co.uk

Carpedi
Gwyn Lewis Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel, Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

TEIARS
HUW LEWIS
TYRES
TEIARS
BRECS
BATRIS
GWACAWYR
HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
01570 422644

Mwnci ffwnci
Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.
Sioned Green a Mared Jones
Nantgwyn, Heol Llanfair Llambed
01570 423135
07811917799 / 07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

CANOLFAN ADDURNO
AA
A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.
Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.
Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

COMPASS
OFFICE SUPPLIES
Am eich holl ddeunydd swyddfa
Uned 12 Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.
01570 422955
01570 422232

PHILIPJONES FINANCIAL SOLUTIONS
Agricultural, Construction and Business Finance
Cyllid Amaethyddol, Adeiladu & Busnes • Offer Amaethyddol ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau Masnachol • Cyfleusterau Amddiffiniad Offer Newydd a Ddefnyddir
Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies
07757 668339 / 01544 340562
bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk
www.pjfinancialsolutions.co.uk
Authorised and regulated by the Financial Conduct Authority No FRN 690293

O San Steffan gan Ben Lake AS

Wn i ddim amdanoch chi, ond rwyf wedi hen golli trac ar ba ddiwrnod, pa wythnos a pha fis yw hi – mae'r diwrnodau i gyd yn teimlo'r un fath - yn llawn cyfarfodydd gwaith (dros Zoom), sgyrsiau gyda theulu (dros Zoom) a chwisiau gyda ffrindiau (ie, dros Zoom!). Mae'n anodd coelio nad oeddwn i erioed wedi clywed am Zoom ddechrau fis Mawrth, a nawr mae'n anodd dychmygu bywyd hebddo.

Yn sicr mae'r Coronafeirws wedi cyflwyno heriau anferthol i'n ffordd o fyw. Mae bywyd fel yr oeddem i gyd yn gyfarwydd ag ef wedi trawsnewid yn llwyr, ac rwy'n falch iawn o'r ffordd y mae cymunedau Ceredigion wedi ymdopi ac wedi addasu yn sgil yr argyfwng. Diolch i chi gyd am eich amynedd, eich cydweithrediad a'ch dyfalbarhad - gyda'n gilydd rydym wedi cadw ein cymunedau'n ddiogel, ac rwy'n siwr y dewn ni drwyddi'n gryfach fel cymdeithas.

Un peth mae'r cyfnod hwn wedi'i brofi yw pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad, ac mae technoleg newydd nid yn unig wedi caniatáu i ni gadw mewn cysylltiad gyda theulu a chyfoedion, ond mae hefyd wedi caniatáu i nifer o fusnesau, cwmnïau a sefydliadau fedru parhau i fod yn gynhyrchiol. Yn hynny o beth, ry'n ni wedi profi bod modd i rai sectorau a gweithwyr weithio o bell, a chredaf fod y darganfyddiad hwn yn cynnig cyfleoedd arbennig i gefn gwlad. O weld mwy o swyddi amrywiol yn caniatáu i weithwyr weithio o adre, boed hynny'n llawn amser neu'n rhan amser, dwi'n ffyddiog y gallai hynny alluogi ein pobl ifanc i aros yn eu cynefin.

Ond wrth gwrs, er mwyn symud yn llwyddiannus i'r cyfeiriad hwn, mae'n hanfodol bwysig bod ein hisadeiledd band eang a'n cysylltedd digidol ni yn ymestyn i bob cornel o'r sir a bod pob cartref yn medru cael mynediad at gysylltedd cyflym a dibynadwy. Bûm mewn cyfarfod â phrif swyddogion BT ychydig wythnosau yn ôl i drafod y diffygion parhaus o safbwynt band eang yng Ngheredigion ac ro'n i'n falch o glywed bod trafodaethau ar waith, ochr yn ochr â Phrifysgol Aberystwyth, i drio datrys y sefyllfa bresennol yn ein hardaloedd gwledig.

Wrth gwrs, mae'n bwysig cael cydbwysedd rhwng ffyrdd traddodiadol a thechnolegol o gymdeithasu ac ymwneud â'n gilydd. Rwy'n croesawu'r datblygiadau technolegol sydd wedi bod yn amhrisiadwy i ni dros yr wythnosau diwethaf, ond ochr yn ochr â thechnoleg, mae angen cynnal cymdeithas a chadw cysylltiad mewn ffyrdd corfforol, wyneb-i-wyneb hefyd, ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at allu gwneud hynny unwaith eto – yn y "normal newydd".

Ysgol Bro Pedr

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

Mae nifer o'n disgyblion wedi dychwelyd i'r ysgol am rai diwrnodau cyn gwyliau'r haf a hyfryd yw cael eu croesawu yn ôl i'n plith. Byddant yn derbyn 'addysg gyfunol' sef cyfuniad o addysgu ar lein ac addysgu wyneb i wyneb yn yr ysgol. Yn yr hinsawdd sydd ohoni dyma'r ffordd newydd o weithio ac mae'r ysgol yn treialu strategaethau a dulliau o weithredu hyn er mwyn budd a lles pob disgybl. Yn ogystal mae nifer o staff yr ysgol wedi bod yn paratoi negeseuon i'r disgyblion ar ffurf ffilmiau er mwyn codi calon, cyflwyno gwybodaeth a chadw mewn cysylltiad. Diolch yn fawr iddynt a diolch yn ogystal i'r disgyblion am rannu lluniau ohonynt hwythau yn dysgu sgiliau newydd.

Hoffwn ddiolch yn fawr i'n prif- swyddogion eleni am eu harweiniad a'u cyfraniad sylweddol i'r ysgol a dymunwn yn dda i'r disgyblion hynny sydd yn ein gadael o flynyddoedd 13 ac 11 a phob lwc iddynt ar gyfer y dyfodol. Llongyfarchiadau i Brynmor Thomas sydd wedi derbyn lle i chwarae yng nghystadleuaeth Dartiau Rhithiol y Byd yn Gibraltar yn mis Tachwedd ac hefyd pan fydd cyfyngiadau cymdeithasol wedi codi fe fydd Brynmor yn ymgeisio i fod yn nhîm Cymru unwaith eto ar gyfer Cwpan y Byd. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da Brynmor.

Rydym yn ffarwelio â nifer o staff profiadol ar ddiwedd y tymor a hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch yn ddiffuant iddynt am flynyddoedd o wasanaeth clodwiw i'r ysgol . Dymuniadau gorau i Mr Dafydd Charles – Dirprwy Bennaeth sy'n ymddeol, Mr Roland Griffiths – Pennaeth yr Adran Ddylunio a Thechnoleg sy'n ymddeol. Miss Hedydd Jones, ail yn yr Adran Gymraeg, yn gadael: ac yn dechrau swydd yn Ysgol Y Strade, Llanelli ym mis Medi Mrs Liz Edwards Goruchwylwraig Cinio sy'n ymddeol a Mrs Bethan Evans Goruchwylwraig Cinio yn mynd i weithio fel gofalwraig. Byddwn yn gweld eich heisiau yn fawr a chofiwch gadw mewn cysylltiad.

Dymunwn yn dda i ddisgyblion blwyddyn 6 sydd yn symud i'r Campws Hŷn yn mis Medi. Mae llawer o wybodaeth gwych ar ffurf digidol ar gael er mwyn eich paratoi ar gyfer blwyddyn 7.

Gwasanaethau Coed Llambed
LAMPETER TREE SERVICES
GWASANAETHAU COED LLAMBED
Cae Celyn, Heol Llanfair,
Llambed, SA48 8JX
01570 422819
www.lampetertrees.co.uk
Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.

WD Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants
Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk
Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215

GWASANAETHAU YSWIRIANT FUW
Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.
Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.
Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG
Swyddfa: 01570 422556
www.fuwinsurance.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

Graham Jones
Gwasanaethau Cyfrifiaduron
* Datrys Problemau a Trwsio
* Ymweliadau Cartref
* Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
* Pherifferolion Ar Werth
* Gwasanaeth Dylunio Gwefan
Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com
graham@tynici.com

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR, COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

Yn y Gegin gyda Gareth

A hithau yn dymor yr haf a'r tywydd yn braf pa beth yn well na chael cyfle i goginio barbeciw blasus i'r teulu. Felly mwy o ryseitiau o gegin Clonc i chi drio'r mis yma a mwynhau prydau yn nhywydd teg yr ardd. Cadwch i goginio a chadwch yn ddiogel.

Hwyl yr haf

Gareth

Byrgers Clonc

1 pwys o friwgug Cig oen
50g o friwsion bara
1 ewyn o garlleg
Ychydig o berlysiau Ffres
1llwy de o saws mint
1 winwnsyn coch wedi'i ddarnio

Dull

1. Gosodwch y bara, garlleg, winwns, perlysiau a mint mewn prosesydd bwyd a malwch, yna ychwanegwch i'r cig, halen a phupur i flasu
2. Cymysgwch yn dda a ffurfiwch yn 8 Byrger. Yna i'r oergell am tua 1/2 awr.
3. Gosodwch ar y BBQ a choginio am tua 4 munud bob ochr. Rhowch mewn roliau a salsa tomato gydag ychydig o mayonnaise

Parseli Eirin gwlannog

115g o fisgedi amaretti
75g o almwn wedi dafelli
50g o siwgwr muscovado
1 melyn wy
75 g o fenyn wedi'i giwbio
Sudd a chroen 1 lemwn
6 eirin gwlanog

Dull

1.Malwch y bisgedi yn fân ac yna fewn â'r almwn, siwgwr, menyn a chroen y lemwn. 2. Malwch i greu ansawdd briwsion yna mewn â'r wy.
3. Torrwch y ffrwythau yn hanner, gwaredwch y garreg a brwsiwch efo sudd.
4. Rhanwch y llenwad rhyngddynt, a gosodwch 2 eirin gwlanog ymhob darn o ffoil yna lapio.
5. Gosodwch ar y BBQ am tua 25 munud.
6.Gweinwch efo hufen iâ.

Tomatos wedi'u llewni

1 tin o ffa cannellini
1 llwy fwrdd o bast tomato haelgoch
50g o friwision bara
150g o fadarch
Diferion tobasco
Ychydig olew
Winwns wedi'u darnio
Ychydig berlysiau
8 tomato mawr

Dull

1.Gosodwch y ffa mewn dysgl a gwasgwch yn Stwnsh yna fewn â'r tobasco, past tomato a'r bara
2. Malwch y madarch mewn prosesydd.
3.Cynheswch olew mewn padell ffrio ac ychwanegwch y winwns am 5 munud. Yna fewn â'r madarch.
4. Coginiwch am 3 munud ac ychwanegwch i'r ffa a'r perlysiau
3. Torrwch dop y tomatos gan waredu y canol.
4. Llenwch efo'r gymysgedd gan osod y top nôl arno.
5. Brwsiwch efo olew a choginiwch ar y BBQ tua 8-10 munud.
6. Gweinwch efo ychydig o besto.

Cegin *Gareth*
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313
Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Hanes Tŵr y Dderi

Mae'n wir dweud fod hwn yn gyfnod hanesyddol am nifer o resymau ac mae pobl o bob oed wedi gorfod addasu ac ymdrin â'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn hwyluso bywyd beunyddiol. Faint o'n darllenwyr tybed oedd wedi clywed am feddalwedd 'Zoom' fel dull o ddod â phobl ynghyd cyn cyfnod y gofid mawr?

Ar ddydd Sadwrn 6ed o Fehefin cafodd llawer o drigolion Silian ac ardal Llanbed brofiad o hanes ar ei newydd wedd drwy wrando ar ddarlith hanesyddol drwy gyfrwng 'Zoom'. O ganlyniad i garedigrwydd yr hanesydd amryddawn o Lanfair Clydogau, Alan Leech, fe wnaeth tua deugain o bobl gymryd mantais o'r cyfle i ddysgu am hanes Tŵr y Dderi ym mhlwyf Betws Bledrws a phlasty cyfagos Derry Ormond.

Cefais fy ngeni a magu ar fferm Tanygraig, Silian ac mae'r olygfa uwchlaw tir comin Frongoch tuag at Dŵr y Dderi ar dir fferm Penparc yn wych. Mae'r hanes dilynol yn grynodeb o ffrwyth ymchwil Alan Leech ar y testun.

Comisiynwyd adeiladu'r tŵr gan y sgweier John Jones, sef perchennog plasty Derry Ormond. Llawfeddyg cyfoethog o Lundain oedd John Jones ac fe brynodd Derry Ormond yn 1783 am bris rhesymol o £1,575. Roedd adeiladu'r tŵr yn ffordd o roi gwaith i ddynion lleol di-waith rhwng 1821 a 1824. Cynlluniwyd y tŵr gan C.R Cockerell ac roedd yr adeiladwr David Morgan yn gyfrifol am gadw trefn ar y gweithwyr. Mae ei fedd i'w gweld yn eglwys y plwyf Betws Bledrws.

Yr enw gwreiddiol oedd Colofn Dewi Sant ond erbyn i fap OS 1888 ymddangos cafodd ei adnabod fel Tŵr y Dderi. Yn 1952 cafodd ei restri fel adeilad o werth hanesyddol gradd II. Mae'r tŵr yn 127 troedfedd o uchder. Cafodd ei adnewyddu yn y 1970au gan D.B Hague ond erbyn heddiw nid yw'n bosib cael mynediad iddo a dringo'r grisiau i'r copa. Er hyn, mae rhai trigolion lleol yn cofio'r wefr o ddringo i'r copa gan fwynhau'r olygfa ryfeddol.

Yn wreiddiol cafodd ei adeiladu ar dir comin a ddaeth hwyrach yn eiddo i'r plasty cyfagos. Yn 1918 roedd yr ystâd yn cynnwys 16,000 cyfer. O ganlyniad i ddirywiad yng nghyfoeth y teulu, gorfodwyd i Wilmot Inglis-Jones werthu'r plasty a'r ystâd yn 1950 am swm o £3,000. Erbyn hyn roedd y cyfanswm o dir yn ei eiddo wedi gostwng i 462 cyfer yn unig. Yn anffodus cafodd y plasty hynod drawiadol ei ddymchwel yn 1953 wedi iddo fynd ar ei waethaf.

Gerllaw mae safle gwreiddiol Capel Coedgleision oedd yn eiddo i'r Bedyddwyr. Mae'r cerrig beddau yn dal yno, ond bellach Capel Bethel yn Silian yw canolfan y Bedyddwyr lleol.

Roedd y ddarlith yn hynod ddiddorol a llwyddiannus ac yn ogystal ag estyn diolch i Alan Leech, mae'n bwysig dweud fod llwyddiant y ddarlith hefyd yn ddibynnol ar sgiliau technoleg gwybodaeth Eryl Bradley a Delyth Evans Tanygraig, Silian. Hoffwn hefyd ddymuno pob lwc i Sally ac Alan Leech o Danyresgair, Llanfair Clydogau sydd wedi penderfynu symud i Loegr ar ôl cyfraniad amhrisiadwy i'r gymuned dros y ddwy flynedd ar hugain olaf. Mae'r ddau wedi ysgrifennu nifer o lyfrau gwych am hanes lleol.

Aled Evans

Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Tyngrug-ganol,
Cwmsychbant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel shwmae? Mae'r haul yn dechrau gwenu ac mae blodau a llysiau yn yr ardd yn tyfu'n dda. Gobeithio os bydd hi'n parhau'n braf y cawn ni gyfle i fynd mas i chwarae i'r ardd ar y llithren a'r siglen, heb anghofio neidio lan a lawr ar y trampolin wrth gwrs! Ond cofiwch bod yn ofalus a gwrando ar oedolyn.

Wel cefais sawl llun arbennig o dda i ddiolch i'r athrawon dros yr wythnosau diwethaf yma. Roeddwn yn hoffi llun Eli-May o Brengwyn ac Elliw Grug Davies o Drefach. Ond y llun taclusaf oedd un Lisa Adcock Williams o Lanbedr Pont Steffan. Da iawn i bawb a llongyfarchiadau mawr i ti Lisa!

Wel dros yr wythnosau diwethaf yma rydym wedi bod yn diolch i'r holl bobl sydd yn ein helpu. Ydych chi'n cofio pawb rydym wedi diolch iddo? Ydyn ni wedi anghofio unrhyw un? Os fedrwch chi feddwl am rywun arall sydd yn haeddu cael llun wedi ei liwio ohonynt yna danfonwch e-bost bach cyflym draw ataf. Dwi wrth fy modd yn edrych ar fy e-byst gan aros yn eiddgar am luniau lliwgar chi y plant. Yr wythnos yma rydym am ddiolch i griw yr RNLI sydd yn dal i helpu a gofalu am bobl allan ar y môr. Beth am fynd ati i liwio llun y cwch RNLI? Cofiwch ei ddychwelyd ataf cyn diwedd mis Awst.

Ta ta tan toc.



Enillydd y mis!

Lisa Adcock Williams

Enw: **Oed:**

Cyfeiriad:

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i enw'ch plentyn ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

Llofnod Rhiant/Ceidwad:

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyo symudol ar gyfer pob achlysur:

- **Bwyd Priodas**
- **Bwffe**
- **Te Angladdau**
- **Digwyddiadau Maes**
- **Peiriant Rhostio Mochyn ar gael**

Bar symudol ar gyfer digwyddiadau allanol boed yn fawr neu'n fach

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?
Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!
Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:
Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol
Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref
Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman **Dip CII, Cert CII(MP)**
Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP
M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com true potential wealth management

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Bag Siopa Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i'ch enw ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

		7		9		6		3
8		2	7				9	
	6		5			7		
			4					1
	1						4	
7					1			
		8			4		2	
	7				9	3		8
5		3		7		9		

Ateb Swdocw Mehefin

Llongyfarchiadau i Richard Huws, Bont-Goch a diolch i bawb arall am gystadlu: Rob Phillips, Llanbed; John Lewis, Llanbadarn Fawr; Derek Evans, Llanbed a Richard Evans, Olmarch.



Hen Luniau Llanbed

1

2

3

4

5

6

7

Yn ystod cyfnod y Cloi Mawr diweddar, mae pori drwy hen luniau, a thudalennau penodol ar wefannau cymdeithasol wedi profi i fod yn boblogaidd iawn i lawer o bobl. Dyma rai lluniau a rannwyd ar dudalen 'Old Lanpeter Photos' ar facebook dros y misoedd diwethaf.

1 - Brigad Dân Llanbed 1970 a bostiwyd gan Jon Williams; 2 - Carnifal Llanbed 1988 gan Emma Jayne Lewis; 3 - Rody Rees gan Irfon Williams; 4 - Agor estyniad i Ysgol Heol y Bryn 1933 gan Jon Willimas; 5 - Tywysog Charles Newydd basio gan Paul James; 6 - Clwb Criced Llanbed 1948 gan Jon Willimas; 7 - Gorsaf Drenau Llanbed gan Meurig Evans; 8 - Coleg Dewi Sant 1910 gan May Rigby; 9 - Ail Dîm Clwb Rygbi Llanbed 1973-74 gan Cairo Jones.

8

9

Hen Luniau Llanbed

10

11

12

13

14

15

16

Ceir amrywiaeth o luniau dros sawl cyfnod ar dudalen 'Old Lampeter Photos' ar facebook, yn lluniau du a gwyn a lluniau lliw cynnar. Maent yn dangos bwrlwm cymuned y dref dros y blynyddoedd. Dyma gasgliad i'w drysori.

10 - Ar y Cwmins a bostiwyd gan Mark Palmer; 11 - Mart Llanbed gan Alun Lewis; 12 - Beryl Jones wrth ei bodd yn ei gwaith yn Fountain Fabrics gan Euros Jones; 13 - Tynnwyd y llun hwn o'r Stryd Fawr a'r Sgwâr gan John Thomas tua 1875 gan Euros Jones; 14 - Janet yn nghanol losin Blaenpant gan Paul James; 15 - Merched y Ddawns Flodau yn gorymdeithio drwy'r Sgwâr adeg y cyhoeddi yn 1983 gan Mark Evans; 16 - Fan gig ar y Stryd Fawr gan John A Davies; 17 - Hen lun wedi ei dynnu ym Mrondeifi gan Thelma Hynd; 18 - Cyflwyno cadair i Eisteddfod yr Urdd yn 1999 gan Cerdin Price.

17

18